# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 449 | Mawrth 2024 | Pris £1.50


# BRECWAST GŴYL DDEWI

Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 25ain ac roedd yn braf gweld y lle dan ei sang.

Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eurfyl Lewis cyn i bawb ymuno i ganu'r emyn "Dysg i mi garu Cymru", i gyfeiliant Ceirios Jenner. Cafwyd darlleniad gan y Parchedig Ken Thomas a gweddi gan y Parchedig Guto Llywelyn ac yna bu pawb yn mwynhau brecwast bendigedig Caffi Beca!



Wedi i bawb gael eu digoni, bu Eurfyl yn cyflwyno'r siaradwr gwadd sef y Prifardd Tudur Dylan Jones o Gaerfyrddin. Mae pawb yn gwybod am y ddawn, brwdfrydedd a'r gallu rhyfeddol sydd gan Dylan i gyfathrebu gyda chynulleidfa o bob oed, yn arbennig felly ymhlith pobol ifanc, gan iddo dreulio ei yrfa yn dysgu Cymraeg mewn Ysgolion Uwchradd.

Mae Dylan wedi annog, dylanwadu ac ysbrydoli cenedlaethau ohonynt ar hyd y blynyddoedd. Enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol, ym Mro Colwyn yn 1995, pan oedd ei dad y Parchedig John Gwilym Jones yn Archdderwydd. Aeth ymlaen i ennill ei ail gadair yn Eisteddfod Eryri a'r cyffiniau yn 2005, cyn enill coron yn Eisteddfod Sir y Fflint yn 2007. Cyhoeddodd cyfrol o farddoniaeth o'r enw "Adenydd" yn 2001 a bu'n Fardd Plant Cymru yn 2004 a 2005.

Cafwyd anerchiad wirioneddol wych ganddo, wedi ei chyflwyno yn llawn hiwmor, ond ei neges yn un amserol a phwerus. Bu'n bleser gwrando arno ac roedd cymeradwyaeth frwd a gwresog y gynulleidfa ar y diwedd yn brawf pendant eu bod wedi gwerthfawrogi'r ddarlith yn fawr iawn. Diolchodd Eurfyl iddo'n diffuant am ddod atom. Diolchodd hefyd i Robert a Delyth James a'u staff ymroddgar am baratoi brecwast bendigedig ar ein cyfer, i Ceris Llewellyn ac Anna Williams, yr ysgrifenyddion am gyflawni'r gwaith gweinyddol, i Gwenda Mathias, y trysorydd am ofalu am yr arian, i Ceirios am gyfeilio, i Guto a Ken am y rhannau arweiniol ac i'r gynulleidfa am eu presenoldeb a'u cyfraniadau ariannol. Casglwyd swm o £400 tuag at adran Cancr y Fron yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg. Ymunodd pawb i ganu'r emyn "Dros Gymru'n Gwlad" ar ddiwedd bore dymunol a bendithiol a thraddodwyd y fendith gan Eurfyl.

Dyma englynion o waith Wyn Owens, Mynachlogddu i gyfarch Tudur Dylan.

Tudur Dylan

Er orchest ei ddawn sy'n mestyn – ymhell
Mae hwn, gwyddom wedyn,
Aelodau'r byrddau bob un
Mae hwyl sy'n gyrru'r mwlsyn!

Un glew ar Ddydd Gwyl Dewi – wahoddwyd
Heddiw, wedi'r porthi,
A'i ddawn wych daeth i'n gwledd ni
Dylan i'n hysbrydoli.

Bardd rhydd ei A denydd ar dwyn – welwn
Uwch y Foel yn dirwyn.
Bardd y Môr, i'r broydd mwyn
Un a'i gân fel y gwanwyn.




Swyddogion a'r rhai fu'n cymryd rhan yn yr Ŵyl

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **Cystadleuaeth** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Yn ddiweddar, collom Gwilym Tudur - cyd sylfaenydd Siop y Pethe, y siop Gymraeg gyntaf o'i bath a agorodd ei drysau nôl yn 1967, cyn i mi gael fy ngeni. Mae gennyf atgofion hyfryd iawn o fynd i'r siop yn Aberystwyth pan yn blentyn, er nad oeddwn yn sylweddoli ar y pryd wrth gwrs pa mor eiconig oedd hi. Ac rwy'n meddwl am ei deulu ar adeg mor anoCloncdd.

Gwerthu llyfrau a cherdiau oedd y siop yn bennaf bryd hynny nôl yn y 70au, ac fe dreuliais funudau lawer os nad oriau yn y cwtsh llyfrau yn y cefn tra byddai mam yn cael clonc yn y siop.

O Sali Mali i'r Pry Bach Tew, Jaci Soch a Tomos Caradog – daeth y llyfrau hyn i gyd o Siop Y Pethe. Yn wir, hwn oedd y cyfle cyntaf i fi ddarllen yn fy mamaith. Felly dyw hi'n fawr o syndod fod atgofion melys yn llifo yn ôl. Ac roedd byd Sali Mali a Jac Do a'r oes honno ei hun, yn llawer symlach na'r cyfnod presennol.

Ac wrth gwrs, er mwyn goroesi, mae siopau Cymraeg yn gorfod gwerthu llawer mwy na llyfrau a cherdiau erbyn hyn.

Daeth cyhoeddiad yn ddiweddar y bydd Siop y Pethe yn cau ei drysau yn Aberystwyth, ac yn masnachu ar-lein. Gyda'r esgid yn gwasgu a chostau echrydus, mae'r amodau presennol yn hynod o heriol i fusnesau bychain. Wrth i lai a llai gefnogi siopau, does dim dewis gan nifer ond cau eu drysau, a hynny'n benderfyniad anodd a thorcalonnus yn aml. Ac mae hyd yn oed y siopau cadwyn mawrion yn diflannu o flaen ein llygaid.

Mae colli siopau bychain annibynnol yn ergyd i'r galon, gan mai yno mae'r atgofion llawn lliw. Nid gofod mawr a waliau moel gwyn sydd mewn siopau annibynnol. Mae'n nhw'n fwy cwtshlyd, fel y gornel lyfrau yng nghefn Siop Y Pethe. Yma mae hanesion yn cael eu hadrodd a'u trosglwyddo, a'r cymdeithasu yn ganolog wrth fynd ati i brynu nwyddau.

Gyda'r oes yn newid yn gyflym, a'r amodau presennol mor heriol ar y stryd fawr, mae'r angen i gefnogi siopau bychain yn bwysicach nawr nag erioed. Oherwydd nid ar-lein yw'r lle i brynu un cerdyn pen-blwydd. Mae modd picio i mewn i brynu manion mewn siopau lleol. Ac wrth gwrs, y siopau bychain annibynnol, boed hynny'n siopau Cymraeg neu fusnesau lleol eraill sy'n gwerthu papurau bro.

Ac mae'r hanesion oddi mewn i gloriau Y Cardi Bach a phob papur bro arall, yn aml yn cael eu trafod yn y siopau bychain hynny, oherwydd eu bod nhw'n fannau cymdeithasol. Dyma lle mae cwsmeriaid a staff yn holi ymysg ei gilydd am hwn a'r llall, yn dymuno lwc dda, yn llongyfarch, yn dymuno gwellhâd buan ac yn cydymdeimlo – union yr un fath â thudalennau papurau bro. Dyma asgwrn cefn ein cymunedau. Oherwydd, er yr holl gyfleustra, dyw'r cymdeithasu hynny ddim yn digwydd wrth siopa ar-lein.

Ac mae'r cwtsh hwnnw yn Siop y Pethe yng nghwmni Sali Mali, Jaci Soch, y Pry Bach Tew a Tomos Caradog yn ystafell yr ydym i gyd ei hangen o dro i dro. Dyma'r lle i enaid gael llonydd, y munudau o heddwch, wrth i ni sylweddoli nad yw'r oes ar-lein hon yn fêl i gyd.

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Beti-Wyn James*

## Golchi dwylo a'r Pasg

Wn ni ddim amdanoch chi, ond ers y rhybudd i olchi'n dwylo am 20 eiliad yn ystod y cyfnod gaeth a'r Coronovirus, rwy'n ffeindio fy hun yn dal i olchi fy nwylo am 20 eiliad bob cyfle a gaf. Ond dyw hynny ddim yn beth drwg o gwbwl.

Yr hyn sy'n eironig yw tra bo'r cyfrifoldeb am olchi'n dwylo'n angenrheidiol er mwyn ceisio atal yr haint rhag lledu, mae'r term '*golchi dwylo'* hefyd yn idiom

## GOHEBWYR LLEOL


ALMA: Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans 01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis 01994 419495 jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com


y byddwn yn ei ddefnyddio i ddisgrifio person sy'n pellhau oddi wrth gyfrifoldeb arbennig. Os yw rhywun yn peidio â chymryd cyfrifoldeb mwyach, fe ddywedwn ei fod e neu hi'n golchi dwylo ohono. Gwelir digon o enghreifftiau yn y byd o bobl sy'n golchi'u dwylo o gyfrifoldebau o bob math.

**Y Pasg**

Mae'n Basg, ac fe alwn i gof hanes yn y Testamnet Newydd am un yn golchi'i ddwylo o'i gyfrifoldeb. Pilat oedd ei enw.

Ar ôl tair blynedd a hanner o bregethu, roedd Iesu'n gwybod bod ei amser ar y ddaear yn dirwyn i ben. Ar ei noson olaf, daeth Iesu a'i ddisgyblion at eu gilydd i ddathlu gŵyl y Pasg. Ar ôl anfon Jwdas i ffwrdd, fe sefydlodd Iesu ddathliad newydd, sef Swper yr Arglwydd. Roedd gan Iesu lawer i'w ddweud wrth ei ddisgyblion y noson honno. Rhoddodd orchymyn newydd iddynt garu'i gilydd. Roedd pethau ofnadwy ar fin digwydd, ond fe ddywedodd Iesu wrthynt am beidio â phryderu. Gweddïodd yn daer drostynt. Yna, ar ôl canu Salmau aethant allan i dywyllwch y nos.

Yng ngardd Gethsemane, penliniodd Iesu a gweddïodd o waelod ei galon. Cyn bo hir, cyrhaeddodd criw o filwyr, offeiriaid ac eraill i'w arestio. Dangosodd Jwdas i'r milwyr pwy oedd Iesu drwy fynd ato a'i gusanu. Wrth i'r milwyr rwymo Iesu, rhedodd y disgyblion i ffwrdd. O flaen uchel lys yr Iddewon, fe wnaeth Iesu ddatgan mai ef oedd Mab Duw. Barnodd y llys ei fod yn euog o gabledd ac yn haeddu marwolaeth. Llusgwyd Iesu gerbron y Llywodraethwr Rhufeinig Pontius Pilat. Er nad oedd Pilat yn meddwl bod Iesu'n euog, rhoddwyd Iesu yn nwylo'r dorf a oedd yn gweiddi am ei waed.

Yna, aeth Pilat ati i gyflawni'r weithred symbolaidd o olchi'i ddwylo o flaen y dyrfa, gan ddweud nad oedd yn euog o waed Iesu. Golchi'i ddwylo o'r cyfrifoldeb yn llwyr. Ac onid ydyn ni'r un mor euog o bryd i'w gilydd o olchi'n dwylo o'n cyfrifoldebau a throsglwyddo'r cyfrifoldeb i eraill?

**Golchi Dwylo**

Mae hanes Pilat yn golchi ei ddwylo yn cyfeirio fy meddwl ar unwaith at y ffenest liw arbennig hon a osodwyd yn fy mam eglwys, sef Hebron Clydach er cof am y diweddar Barchg Gareth Thomas, gweinidog ffyddlon a ffrind da i ni gyd. Mae'r ffenest bellach wedi ei had-leoli yng Nhapel y Nant, Clydach, wedi i eglwys unedig newydd gael ei hagor yno rhai blynyddoedd yn ôl.

Bum yn arwain oedfa yn fy mhentref genedigol yn ddiweddar – yng Nghapel Y Nant, Clydach, Cwm Tawe. Mae bob amser yn braf mynd nôl adre'. Tra yn y capel, cefais gyfle i syllu unwaith yn rhagor ar ffenest liw arbennig iawn a gynlluniwyd ar adnod o bregeth y diweddar Barchg Gareth Thomas, adnod o Efengyl Luc 'y mae ysbryd yr Arglwydd arnaf, am iddo fy eneinio i bregethu newyddion da i'r tlodion, i rhyddhau carcharorion ac i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.'



Gwelir yn y ffenest gynrychiolaeth o bedwar cylch o bobol mae'n byd wedi bod yn euog o olchi'n dwylo ohonynt: yr Iddewon, y bobol dduon, yr Indiaid Cochion a Chymru a'r Iaith Gymraeg (plentyn yn gwisgo'r Welsh Not). Mae'r pedwar cynrychiolydd yn cael eu portreadu yn y ffenest o fewn cadwyn, yn arwydd o'u caethiwed. Ond gwelir hefyd y groes yn torri'r trwy'r gadwyn ac yn rhyddhau'r bobol.

Er bod golchi'n dwylo er mwyn atal unrhyw haint yn hynod o bwysig, nid amser i olchi'n dwylo o gyfrifoldebau eraill yw hwn. Tra bod rhai yn mynnu golchi eu dwylo o gyfrifoldebau, caiff Cristnogion eu galw i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ochri gyda'r gwan a'r di-amddiffyn.

# Clonc a Phosau John Arfon

Yn anffodus fe anghofiais enwi un arall oedd yn aelod o'r staff yn yr Ysgol Ramadeg yn 1963, sef Pennaeth yr Adran Gymraeg, Margaret A Phillips o ardal Cydweli. Ei ffugenw oedd Ma Pipps oedd yn deillio o'i henw, er hynny roedd pob disgybl yn meddwl y byd ohoni ac mae llawer ohonynt hyd heddiw yn fawr ddiolchgar iddi am eu trwytho mewn llenyddiaeth a barddoniaeth Cymraeg. Er i mi ddweud yn gynt mae Geraint Griffiths oedd pennaeth yr Adran Gymraeg, pennaeth yr Adran Lladin oedd ef yn y flwyddyn hon cyn iddo gymeryd drosodd wedi i Margaret Phillips ymadael.



Wrth edrych trwy hen luniau, deuais ar draws llun o Staff yr Ysgol yn 1963-4

Rhes flaen: Janet James, Margaret Phillips, E.C Davies, Y prifathro T. Trevor Thomas, Mair Jones, Mair Roberts, Heulwen Bowen, Ray Evans (ysgrifenyddes).
Rhes ganol: Mair Thomas, Ruby Evans, Selwyn Finch, Dai Morgan, Glan Harries, Geraint Griffiths, John Cook, Myfanwy Thomas, Anne Jefferies.
Rhes ôl: Mervyn Evans, Bill Coupland, Edwin James, Islwyn Griffiths, John Arfon, Brian Davies, Hubert Davies, Haydn Lewis.

Rwy'n siwr y bydd llawer ohonoch gydag atgofion a hanesion difyr am sawl un o'r uchod.

Ar ôl swper yn fy llety yn Dorset House, penderfynais fynd am dro lan Heol y Gogledd. Wedi cerdded am ychydig, deuthum ar draws ffordd ar y chwith oedd yn arwain i stâd o dai o'r enw Lôn Hywel. Ychydig yn uwch wedyn roedd Porthceri, sef tŷ y Prifathro. Rhyw ganllath yn uwch ar yr ochr dde roedd cartref Selwyn Finch yr athro Cemeg. Ar bwys ei dŷ roedd hewl, fel y deallais yn ddiweddarach, yn arwain i adfeilion a safle hen Abaty Hendygwyn. Cerdded ymlaen ar hyd y rhiw serth a nifer o dai wedi eu hadeiladu yr ochr chwith, hyd cyrraedd top yr allt ac yno roedd mynwent Nasareth sydd yn awr yn fynwent y dref. Erbyn hyn roedd yn dechrau tywyllu, felly troi yn ôl am fy llety gan obeithio chwilota mwy o'r dref yn ystod y dyddiau nesaf.

Dyma atebion posau y mis diwethaf

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | X | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | O | X |
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 1 | 7 | 4 | 3 | 2 | 9 | 6 | 5 |
| 6 | 4 | 2 | 9 | 8 | 5 | 7 | 1 | 3 |
| 9 | 3 | 5 | 1 | 7 | 6 | 4 | 8 | 2 |
| 3 | 8 | 4 | 2 | 6 | 7 | 1 | 5 | 9 |
| 1 | 2 | 9 | 8 | 5 | 4 | 6 | 3 | 7 |
| 5 | 7 | 6 | 3 | 1 | 9 | 2 | 4 | 8 |
| 7 | 5 | 1 | 6 | 9 | 3 | 8 | 2 | 4 |
| 4 | 9 | 8 | 5 | 2 | 1 | 3 | 7 | 6 |
| 2 | 6 | 3 | 7 | 4 | 8 | 5 | 9 | 1 |

**Atebion pôs cloc y cwch gwenyn**

1. Gwener, 2. Trelew, 3. Taflen, 4. Amatur, 5. Manylu, 6. Golygu, 7. Goleuo, 8. Hoelen, 9. Hawlio. 10. Sylwedd 11. Hysbys, 12, Gresyn.









**Atebion Canfod y Person.**

**Ar Draws**: 1. Sebon, 3. Dur, 4. Mwg, 7. Mat, 8. Nyth, 10, Nwy. **I Lawr:** 1. Sir, 2. Nam, 3. Degwm, 5. Gwerth, 8. Tra, 9. Nwy.

Yr ateb yn y canol oedd **Gareth Bale**

**Dyma bosau i'ch diddori y mis yma**

Mae'r rheolau'r Cwrosw yn weddol syml - dim ond dwy sydd.

**1**. Llenwch pob blwch gyda dim (O) neu groes (X) fel nad oes mwy na dau ddim neu dwy groes yn dilyn eu gilydd newn unrhyw linell neu golofn yn y grid. Nid yw'r ddwy linell croes-onglau yn cyfrif. **2**. Mae'n rhaid i bob llinell neu golofn gynnwys tri dim a thair croes.


Dylech fod yn gwybod sut i gwblhau y Chwilrif erbyn hyn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | X | | | O | |
| O | | | | | |
| | | O | | O | |
| X | | | | | |
| | | | X | | O |
| | X | O | | | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | | | | | | | 2 |
| | | 9 | 3 | | 5 | | | |
| | | 2 | 8 | 9 | | | | |
| 1 | | | | | | 8 | 2 | |
| | 2 | | | 5 | | | | |
| | | 7 | 4 | 3 | | | | |
| | | | 9 | | 4 | | 6 | |
| | | 8 | | | | 3 | | 5 |
| | | | | 6 | | 2 | | 4 |

**Cwblhau Croesair yw'r pôs cyntaf**

Cymerwch ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren



**Dyma'r cliwiau**

**Ar Draws**

1. Dinistrio (4)
8. Dyheadau (10
9. Mae Mawrth, Mercher, a Sadwrn yn enghreifftiau o'r rhain (8)
10. Plygu dan bwyso ym miwsig Offenbach (4)
12 Edifarhau (6)
14. Cawn enw merch trwy golli diwedd llyfrau (6)
15. Rhan o'r corff (4,2)
17. Cyfyngder a wynebwyd yn ystod Streic Fawr 1926 (6)
18. Cael ei wneud gyda haearn (1,3)
19. Rhannau o'r flwyddyn.(8)
21. Cael pennaeth fel Cesar wrth chwalu hyder morwr. (10)
22 Teitl arglwydd uchel ei statws (4)

**I Lawr**

2. Un o wledydd Ewrop (10)
3. Asgell a geir ar awyren(4)
4. Cytuniadau lle mae un peth yn dibynnu ar rywbeth arall (6)
5. Ffrwyth a geir ar goed cyll (6)
6. Gall un cael ei gosbi os yw'n gwneud hyn ar gae peldroed neu rygbi (8)
7. Denu neu swyno (4)
11. Gwerinwr (10)
13. Cyfnod o fodolaeth (8)
16. Rhywun sy'n perthyn i wlad arall (6)
17. Cefnogaeth trwy help (6)
18. Papur Bro rhan uwch Dyffryn Conwy (4)
20.Sythu yng nghanol lloerig (4)


FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444 01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

**Yr ail bôs i'ch diddori yw ceisio datrys y croesair isod gyda'r rhifau a roddir oddi tano.**



**2 Rif:** 12, 24, 36, 38, 39, 46, 52, 68

**3 Rhif:** 129 134, 143, 524, 824, 943

**4 Rhif:** 1731, 1745, 9245. 9853

**5 Rhif :** 37482, 44442

**7 Rhif:** 1366892, 4116954 4353542, 4613362

**9 Rhif ;** 649402843, 654395423. 689782899

## Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Cyfarchion y gwanwyn i chi gyd! Mae gweld y cennin Pedr yn ein perthi ac ambell i oen bach newydd yn ein caeau, yn arwydd gobeithio fod tymor y gwanwyn wrth y drws.

Mae'n amser i gael y Cardi Bach unwaith eto a hyfryd yw nodi bod sawl un wedi ymaelodi'n barod eleni. Wedi dweud hynny, mae o hyd le i ragor!

Bydd rhestr o holl aelodau'r clwb yn ymddangos yn rhifyn mis Ebrill o'r Cardi Bach.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

Rhian.




## RISOLS CIG a THATWS

Cynhwysion:

1. 1 pwys o dato wedi eu pwtsio
2. 6 owns o gig ffowlyn wedi ei goginio a'i dorri'n fân
3. 1 darn o facwn wedi ei goginio a'i dorri'n fân
4. 2 binsiad o deim
5. ½ winwnsin wedi ei ratio
6. Halen a phupur
7. 1 wy wedi ei guro
8. Briwsion bara i orchuddio'r risols

Dull

1. Cymysgwch y cig a'r bacwn gyda'i gilydd ac ychwanegwch at y tato pwtsh.
2. Ychwanegwch y teim, winwns, halen a phupur.
3. Ychwanegwch hanner yr wy, i glymu'r gymysgfa a ffurfiwch i siap teisennau bach fflat.
4. Rhowch y teisennau yng ngweddill yr wy a gorchuddiwch a briwsion.
5. Ffriwch mewn saim (y ddwy ochr) nes eu bod yn felyn-frown.

Bwytewch yn dwym

## PWDIN (blasus)

Cynhwysion:

¼ peint o friwsion bara • ½ peint o laeth
Croen lemwn wedi ei gratio
1 llwy fwrdd o siwgwr caster • 2 llwy de o jam coch
1 owns o fargarine • 2 melyn wy

MERINGUE
2 gwyn ŵy • 3 owns o siwgwr caster

Dull:

1. Twymwch y llaeth a'i arllwys ar ben y briwsion bara, margarine, croen lemwn a 1 owns o'r siwgwr.
2. Gadewch i aros am 30 munud, yna ychwanegwch y melyn-wy.
3. Arllwyswch i badell a phobwch am tua awr.
4. Pan fydd y pwdin wedi oeri, gorchuddiwch a'r jam.
5. Whipiwch y gwyn-wy yn stiff, ychwanegwch y siwgwr.
6. Gorchuddiwch y meringue dros y pwdin.
7. Nôl i'r ffwrn (180°C) nes ei fod yn barod 15-20 munud.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469


W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Er yn gwerthfawrogi crefft y stori fer mae'n well gen i ymgolli mewn nofel ond cyhoeddwyd sawl cyfrol ddifyr o storïau byrion yn ddiweddar, un am fywyd yn y ddinas - **Porth** - gan Luned Aaron. Os oes gennych blant ifanc yn y teulu efallai eich bod yn gyfarwydd â'i henw fel awdur a dylunydd llyfrau deniadol i blant. Enillodd wobr *Llyfr y flwyddyn* yng nghategori'r plant y llynedd a gwobr *Tir na-n-Og*. Dyma ei chyfrol gyntaf i oedolion a'i storïau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a daeth yn agos iawn i'r brig am y fedal rhyddiaith ym Moduan ha'r llynedd. Er yn storïau unigol mae llinyn rhyngddynt ac ambell un sensitif am ymgeiswyr lloches.

Cyfrol o storïau â blas y pridd arnynt yw **Gwreiddio** a'r rheini wedi'u hysgrifennu gan wyth o awduron adnabyddus a'u testunau'n amrywio ac er yn gogwyddo tuag at y lleddf am heriau cefn gwlad megis y diciau, plannu coed ac etifeddiaeth fferm a'r pontio rhwng y cenedlaethau. Mae hiwmor yn gymysg â'r dwyster mewn sawl un, yn enwedig stori Bethan Gwanas.

Y llyfr a ddarllenais fis diwethaf i'w recordio i *Lyfrau Llafar* oedd cyfrol arall o storïau byrion, sef **Pryfed Undydd** gan Andrew Teilo. Awdur newydd ond un sy'n gyfarwydd i wylwyr Pobol y Cwm fel y cymeriad Hywel Llywelyn. Yn sicr, mae'r ysgrifennu'n hynod grefftus, pob cymal a brawddeg wedi'u saernïo'n fwriadol a does dim rhyfedd iddo ennill gradd uwch mewn ysgrifennu creadigol. Mae'r cymeriadu'n rhyfeddol megis mewn stori deimladwy am 'Da'cu', am ddyn deddfol ac unig, am Liwcas yr Adonis, ysbryd Tomos Beynon, llid gyrrwr â diafol ar ei ysgwydd, a'r tad obsesiynol yn y stori olaf, ddoniol, *Pizza*. Yn *Golwg* trafododd y llyfrau yn ei fywyd a chyfeiriodd at y 'paranoia amheuthun' yng ngwaith Franz Kafka a'i 'ddealltwriaeth o'r cyflwr dynol' ac felly ei gyfrol yntau.

Un o raglenni gorau Radio Cymru yn fy marn i yw un Dei Tomos ar y Sul. Mae'n holwr craff a'i westeion yn ddifyr. Un o'r rheini rai wythnosau nôl oedd Simon Chandler a'm denodd i ddarllen **Llygad Dieithryn.** Dyma nofel gyntaf yr awdur sy'n hanu o Lundain yn wreiddiol, a syrthiodd mewn cariad â Chymru, y Gymraeg a'r gynghanedd ond heb fyw yma erioed. Cyfreithiwr ydyw wrth ei alwedigaeth ym Manceinion. Pan ar wyliau ger Porthmadog aeth gyda'i deulu i chwarel Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog a rhyfeddu wrth glywed am yr iaith a'i diwylliant. Wrth aros i brynu tanwydd i'w gar holodd ddyn y garej a fyddai modd iddo ddysgu'r Gymraeg yn rhugl. Ateb nacaol a gafodd. Pymtheng mlynedd yn ddiweddarach dechreuodd ddysgu'r iaith – blynyddoedd a wastraffwyd meddai. Cafodd ei swyno gan ysbryd cymunedol y wlad ac ymaelododd â grŵp gweplyfr Blaenau Ffestiniog. Trwy hynny daeth i gysylltiad â hanesydd lleol a'i lyfr am y '*Stiniog a'r Rhyfel Mawr,* a stori ynddo sbardunodd y nofel hon.

Mae'n dechrau yn 1915 gyda Freidrich, y rhingyll o'r Almaen a garcharwyd yn y Fron Goch ger y Bala ac a ddechreuodd ddysgu'r Gymraeg gydag Alun, ei warchodwr. Mae'n symud wedyn i 2019 at Katja yr Almaenes - ac mae'r awdur yn digwydd bod yn rhugl yn yr Almaeneg hefyd! Mae hithau yn dysgu'r Gymraeg ac yn mynd i Eisteddfod Llanrwst yr haf hwnnw i ddatrys dirgelwch cyfrinach ei hen dad-cu. Yn ei gyfweliad radio dywed yr awdur iddo newid ei hunaniaeth yn llwyr a'i fod yn berson gwahanol yn y Gymraeg a'i fod yn bodoli mewn dau fyd ond yn cwrdd â chymuned Cymraeg Manceinion yn rheolaidd. Pwysleisiodd nad efe yw Katja yn y nofel ond mae'n cyfleu ei deimladau yntau yn y disgrifiad ohoni yn cyrraedd maes yr Eisteddfod. Mae'n rhyfeddol sut mae wedi trwytho ei hun yn ein diwylliant a hynny'n amlwg yn y nofel hon sydd â chyfrinach i'w datrys. Mae llyfr llafar yn cyd-fynd â'r nofel wedi'i leisio gan Mererid Hopwood.




Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Cyfarfu'r aelodau yn Yr Hen Ysgol amser cinio dydd Sadwrn, Chwefror 10fed i fwynhau y cinio blynyddol. Roedd 18 yn bresennol.

Croesawyd pawb i'r ginio gan Eileen gyda chroeso arbennig i Faer San Cler sef Annalyn. Wedi i Iona offrymu gras mwynhawyd cinio blasus dros ben gyda phawb yn canmol.

Croesawyd Annalyn yn swyddogol gan Eileen. Cafwyd anerchiad diddorol iawn gan Annalyn am waith y Cyngor Tref. Esboniodd sut yr etholir aelodau o'r Cyngor a sut ei hetholwyd hi'n Faer. Soniodd am y cyfrifoldebau sydd gyda'r Cyngor a'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn diwethaf i godi ymwybyddiaeth pobl o waith y Cyngor a'u gweledigaeth ar sut i ddatblygu San Cler. Un rhan bwysig o'r gwaith yw datblygu Y Gât a gofynwyd i bawb lenwi holiadur ynglyn â gweithgareddau'r dyfodol yn Y Gât. Mae Croeso Cynnes, lle mae nifer o'r gangen yn gwirfoddoli, wedi bod yn lwyddiant mawr a gobeithir ehangu ar y ddarpariaeth yma am y gwelwyd fod gwir angen amdano yn San clêr.

Diolchodd Eileen yn ddiffuant i Annalyn am ei haraith a'i rhodd ariannol. Hefyd, mynegodd ei diolch i Sue o'r Hen Ysgol am y cinio arbennig ac i Rhian a Iona am drefnu. Cyflwynodd Beti-Wyn rodd o flodau i Annalyn.

Roedd Lilwen wedi paratoi dau drefniant hyfryd o flodau i addurno ac fe'i rhoddodd fel gwobrau raffl. Fe'u henillwyd gan Joan a Iona.

Prynhawn hyfryd o giniawa a chymdeithasu.



## Cangen Gronw

Daethom at ein gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar brynhawn dydd Iau, Chwefror 29ain eleni dan lywyddiaeth Valerie Davies. Er ein bod yn gwneud hynny'n flynyddol, nid yn aml y mae ein dathliad yn disgyn ar ddiwrnod olaf mis Chwefror mewn blwyddyn naid!

Yng Nghaffi Beca oeddem ni, a roedd y cawl, y pastai fale, y pancos a'r ffrwythau a'r pice bach, fel arfer yn arbennig. Diolch i Robert a'i weinyddwyr am baratoi'r bwyd ac am weini arnom mor hwylus.

Ein gwraig wadd oedd Mrs. Marian Thomas o Langynin. Bu'n siarad am ei dyddiau cynnar yn Rhuthin ac yna yn Llandudno, gan gyfeirio at y cyferbyniad rhwng y ddau le. Cyfeiriodd at ei dyddiau ysgol – yn ddisgybl mewn Ysgol Gynradd Gymraeg, cyn mynd ymlaen i Ysgol Ramadeg Seisnig. Bu'n sôn am wario gwyliau'r haf yn ardal Llanbed, a'i hoffter o geffylau a merlota.

Dyddiau coleg yn Aberystwyth ddaeth nesa ac ymuno â Chymdeithas yr Iaith ynghyd â chyflawni ei gwaith addysgiadol, a gweithio yng Ngwersyll yr Urdd dros wyliau'r haf. Wrth sôn am ddigwyddiadau ac am bobol y daeth i gysylltiad â hwy, ac a greodd argraff arni, dyfynnodd o lenyddiaeth – yn stori, drama a barddoniaeth, a mynegodd ei hoffter o ddarllen hunangofiannau.

Wedi gwario blynyddoedd ym myd addysg, mae Marian yn parhau i fod yn brysur iawn, ac yn ddiweddar wedi cymryd gofal dros Gornel Llên y Cardi Bach. Mae ei chyfraniadau yn llawn gwybodaeth diddorol ac yn ddifyr iawn i'w darllen. Diolch yn fawr iddi am roi o'i hamser i ymuno â ni yn ein dathliad Gŵyl Ddewi.

Delyth enillodd y raffl. Llongyfarchiadau iddi hi. Bydd ein cyfarfod nesa ar brynhawn dydd Mercher, Mawrth 27ain, yn festri Ramoth, pan byddwn yn croesawu Mrs. Janet Harries atom.

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Meirwen, trysorydd y gangen, sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

---

## Cangen Hendygwyn

Dechreuon ni y flwyddyn newydd drwy wahodd Delyth Robinson i siarad â ni. Mae hi wedi arall gyfeirio ar fferm ei rhieni yng Nghwmbach drwy ddechrau gwneud sebon drwy ddefnyddio llaeth y fuwch. Ceson ni wylio'r broses o odro'r da drwy ddefnyddio robots ac

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

yna esboniodd hi’r broses gymhleth o wneud y sebon. Roedd yr holl beth yn ddiddorol dros ben. Ar hyn o bryd dim ond ar y We mae’r sebon ar gael o dan yr enw Mootiful ond cyn bo hir, mae Delyth yn gobeithio bydd e ar gael mewn rhai siopau. Ceson ni’r cyfle i brynu’r sebon ar y diwedd tra’n mwynhau disied o de a bisgedi oedd dan ofal medrus Mefin a Eilir. Ann Glanville oedd fod lywyddu ond oherwydd gwaeledd ei chwaer, roedd yn amhosib iddi fod yn bresennol. Mae’r gangen yn cydymdeimlo’n ddiffuant â hi a’r teulu ar farwolaeth chwaer oedd mor annwyl.

Ar Chwefror 19eg mynychodd Jean a Margarette y Pwyllgor Rhanbarth yn Neuadd Bentre Llanddarog ar ran y gangen. Bu llawer o drafod parthed y Te Prynhawn yn Neuadd Bronwydd ar Ebrill 13fed. Mae’r tocynnau wedi eu gwerthu i gyd.

Ar Chwefror 24ain aeth Eilir, Carole, Ann G Lewis, Gwyneth a Margarette i baratoi te i’r beirniaid yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Gruffydd Jones, Sancler. Ceson ni wres ein traed yn bwydo’r beirniaid a’r swyddogion a llawer o sbri hefyd! Dwedodd y beirniaid bod safon uchel i’r cystadlu.



Paratoi lluniaeth i’r beirniaid yn yr Eisteddfod Gylch

Ann Lewis oedd yn llywyddu cyfarfod mis Chwefror yng Nghanolfan Hywel Dda, a gŵr a gwraig, sef Jayne a Rob Holland o’r Ty Gwyn, Penboyr, oedd ein gwestai. Mae eu gweledigaeth a’u gwrhydru i’w edmygu’n fawr. Maen nhw wedi bod wrthi’n ddyfal yn casglu nwyddau ac arian i brynu ambiwlansys a loriau a’u llenwi ag adnoddau anghenrheidiol, ac yna eu gyrru allan i’r Wcrain. Maent yn bwriadu mynd am y bumed tro cyn bo hir. Dangoson nhw hanes eu teithiau ar y sgrin ac ar ddiwedd y cyfarfod aeth pawb yn ddwfn i’w pocedi er mwyn cyfrannu.

Diolchodd Ann yn gynnes iawn i’r ddau a soniodd am y cyfeillgarwch rhyngddi a mam a thad Jayne pan oedden nhw yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Mae Jayne hefyd yn rhedeg tŷ bwyta llysieuol/vegan ym mhentre Penboyr.



Ann Glanville, Rob a Jayne Holland

Bu llawer o drafod am y Cawl fyddwn ni yn fwynhau yn ein cyfarfod nesa ar Fawrth 19eg. am 2 o’r gloch lle bydd yn bleser i groesawu Heather Jenkins i ganu caneuon gwerin gyda ni. Ann Harries oedd fod i helpu Ann Glanville gyda’r te, ond, oherwydd salwch ei brawd, method a bod yn bresennol. Daeth Christian Donovan i’r adwy ddiolch yn fawr iddi hi. Dosbarthwyd ‘Y Wawr’ ac fe ganon ni gân y mudiad.

---

**Cyfraniadau**

| | |
|---|---|
| Beryl Thomas, 1 Isfryn, Llangynog | £10 |
| Pat Reynolds, Pentroidyn, Llanddewi | £20 |

*Diolch yn fawr*


Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i’w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227



R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

SONIA’S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio

Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

Menter
Gorllewin Sir Gâr

**Hwyl y Pasg:**
Cynhelir gweithgaredd addas i blant hyd at 4 oed ar ddydd Mercher, 27ain Mawrth yn Yr Atom, Caerfyrddin. Bydd ‘Hwyl y Pasg’ gan Menter Gorllewin Sir Gâr, Yr Atom a Chylch Meithrin Myrddin yn cynnwys Sesiwn Stori a Chân, Chwarae Anniben a Chrefftau. Cost y weithgaredd fydd £4 y plentyn. I gofrestru cysylltwch ar helo@yratom.cymru

**Helfa Wyau Pasg Sanclêr a Chastell Newydd Emlyn:**
Dros gyfnod y Pasg, o’r 25ain o Fawrth tan y 5ed o Ebrill bydd cyfle i deuluoedd i fynd am dro yn Sanclêr neu / ac yng Nghastell Newydd Emlyn a mwynhau Helfa. Bydd modd lawrlwytho copi neu gasglu copi o’r helfa o Lyfrgell y Dref. Wedi i chi gwblhau’r helfa gallwch ei ddanfon atom a bydd gwobr i’r enillydd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar nia@mgsg.cymru

**Sesiynau stori:**
Mae ein sesiynau stori yng Nghaerfyrddin ac yn ardal Dyffryn Taf yn parhau bob pythefnos. Ymunwch â ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda gwyneth@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.

**Clybiau Drama:**
Mae’r Fenter, Theatr Genedlaethol Cymru a’r Egin yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae’r clybiau yn cael eu cynnal yn Yr Egin, Caerfyrddin. Cyfle i blant ddysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gyda betsan@mgsg.cymru

**Cwtsh Natur:**
Bydd cyfle i gymdeithasu, creu, cloncan, gwneud bach o arddio a mwynhau dished gynnes a chacen yn y sesiynau Cwtsh Natur a gynhelir yn Yr Ardd, Pont Tyweli o 10yb tan 12yp ar y 13eg o Ebrill a’r 11eg o Fai. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar llinos.cbw@gmail.com

**Cwis Dim Clem:**
Mae staff y Fenter wedi bod yn brysur yn ymweld gyda phob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ein dalgylch i gynnal rownd gyntaf Cwis Dim Clem, Menter Gorllewin Sir Gâr. Diolch i’r 21 ysgol fu’n rhan o’r cwis a da iawn i bob tîm. Cynhaliwyd rownd derfynol Menter Gorllewin Sir Gâr cyn diwedd Chwefror. Llongyfarchiadau mawr iawn i Ysgolion Llanllwni, Y Dderwen, Llangynnwr, Bro Brynach a Griffith Jones a aeth ymlaen i’r rownd honno. Llongyfarchiadau hefyd i’r tîm buddugol sef Ysgol Llanllwni am ddod i’r brig a phob lwc iddynt yn y rownd nesaf. Nhw fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli’r Fenter yn y rownd rhanbarthol ddechrau Mawrth.

**Ynni Sir Gâr:**
Cynhelir ‘Awr Ddaear’ Ynni Sir Gâr yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn rhwng 2 a 6 pm ar y 23ain Mawrth 2024. Bydd yn ddigwyddiad hyfryd i’r teulu cyfan gydag amrywiaeth eang o weithgareddau difyr. Byddwn yno’n cefnogi’r digwyddiad hwn ac yn plannu hadau, dewch draw i’n gweld. Am fanylion ewch i https://cymraeg.ynnisirgar.org/

**Siaradwyr Newydd:**
Dewch i ymuno gyda’n sesiynau siarad ni! Mae croeso i siaradwyr newydd a rhugl ymhob un.
Mae Coffi a Chlonc yn gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae’r weithgaredd hon yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gydag ymholiad@mgsg.cymru
Mae’r Fenter yn cyd-drefnu sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi’r Atom, bob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned.

Cynhelir sesiynau Paned a Phapur yn yr Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre ar ddydd Mercher bob pythefnos. Ac mae sesiynau Shwmae a Siarad yn cael eu cynnal unwaith y mis ar fore Gwener yng Nghaffi Cwtsh Coffi, yr hen glwb pêl-droed, Castell Newydd Emlyn rhwng 10:30-11:30. Edrych ymlaen i’ch gweld yno.

Am unrhyw wybodaeth am ein sesiynau, cysylltwch gydag ymholiad@mgsg.cymru

**Holiadur Profi i bobl ifanc:**

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Mae ein prosiect Profi'n mynd o nerth i nerth. Prosiect sy'n helpu pobl ifanc gyda sgiliau byd gwaith ydyw. Gellir gweld adnoddau Profi a chyfres o ffilmiau a phodlediadau defnyddiol trwy gofrestru ar wefan www.profi.cymru

Er mwyn cael cyfle i ennill podiau clust ac er mwyn cael dweud dy farn, os wyt ti rhwng 14 a 35, gellir llenwi holiadur trwy ddilyn y ddolen yma: https://www.surveymonkey.com/r/Profidylais

### Menter yn Mentro Mas yn Lleol

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr wedi derbyn nawdd oddi wrth gronfa Arian I Bawb y Loteri Genedlaethol i gynnal pob math o weithgareddau cymunedol gyda'r bwriad o ddenu pobl o bob oedran a chefndir a rhoi'r cyfle iddynt wneud defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg yn eu bywydau; boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl; yn ddysgwyr; neu yn ddechreuwyr pur.

"Enw'r prosiect yw Mentro Mas, a bydd y gweithgareddau'n amrywio o sesiynau stori a chanu i rieni a'u plant ifanc, perfformiadau a sesiynau amrywiol i bobl ifanc i ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn, a bydd croeso i bawb ddod i gymryd rhan," dywedodd Nia ap Tegwyn, Uwch Swyddog Iaith y Fenter. "Diolch i Arian i Bawb, mae cyfle gwych gyda ni i gynnal mwy o'r pethau a godwyd gan bobl leol trwy ein proses ymgynghorol i atgyfnerthu gweithgarwch cymunedol yn dilyn cyfnod y pandemig a chael mwy o bobl i fentro mas yn gymdeithasol."

Nod prosiect Mentro Mas yw dod â phobl at ei gilydd i gymdeithasu; i ymarfer eu Cymraeg; i fwynhau; ac i adeiladu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol ar lawr gwlad; a mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol; helpu cynnal gwydnwch diwylliannol/cymdeithasol yr ardal; annog yr amryw fudiadau lleol; y byddwn yn cydweithio â hwy i arfer defnyddio mwy o'r Gymraeg.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau a grwpiau lleol, yn ogystal ag unigolion lleol sy'n dymuno gwirfoddoli, neu gyfrannu mewn rhyw ffordd i fywyd cymdeithasol eu cymuned.

I ddysgu mwy am amserlen gweithgareddau a gwasanaethau Menter Gorllewin Sir Gâr, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.

## Mudiad Meithrin yn Lansio Sianel Dewin a Doti ar YouTube!

Mae Mudiad Meithrin yn falch o gyhoeddi y bydd Sianel Dewin a Doti (Dewin a Doti - YouTube) yn cael ei lansio ar YouTube ddydd Iau, 7fed o Fawrth.

Bydd fideos newydd yn cael eu rhyddhau yn ystod y dydd ar thema'r goedwig, a chan ei bod hi'n Ddiwrnod y Llyfr ar yr un diwrnod bydd Lowri Siôn yn darllen stori Ffrindiau'r Goedwig (un o hoff lyfrau Dewin a Doti). Bydd y fideos amrywiol yn cynnwys animeiddiad o gân Ffrindiau'r Goedwig, a phrofiadau yn seiliedig ar y thema a ffilmiwyd ym Meithrinfa Cywion Bach yn Sir Gâr yn ddiweddar.

Mae Dewin a Doti eisoes yn cael eu hadnabod fel cymeriadau hoffus Mudiad Meithrin a byddant yn rhan greiddiol o gynnwys y sianel. Gyda chyfraniad teuluoedd a chymunedau Mudiad Meithrin bydd y sianel yn cyflwyno amrywiaeth o gynnwys addysgiadol a difyr, gan ddod â gwaith pwysig Mudiad Meithrin i blatfform ar-lein sydd yn rhwydd a diogel i'w ddefnyddio.

Gyda diolch i grant a ddyfarnwyd i'r Mudiad gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol bu modd penodi tîm o dri aelod o staff newydd a byddant yn gyfrifol am greu fideos a hyrwyddo'r sianel i blant a'u teuluoedd ledled Cymru.
Un o'r meithrinfeydd dydd cyntaf i gymryd rhan yn y prosiect oedd Meithrinfa Cywion Bach.

Mae'r tîm yn brysur iawn yn paratoi i gynhyrchu'r gyfres nesaf o fideos i'w rhoi ar Sianel Dewin a Doti - YouTube ac yn awyddus i glywed gan gymuned ehangach y Mudiad sydd yn awyddus i fod yn rhan o'r prosiect gan gynnwys actorion a dehonglwyr BSL trwy e-bostio sianeldewinadoti@meithrin.cymru
Tybed a welwch chi Dewin a Doti yn ffilmio yn eich ardal chi? Gwyliwch y gofod hwn...!

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:- 01994 240857

# RHYDWILYM

Unwaith yn rhagor gwnaeth llif yn yr afon gau yr hewl drwy'r cwm. Mae hyn yn digwydd yn aml, ond y tro hyn bu llawer o waith trwsio ar y bont.



Diolch i'r Parch Huw George, a Lyndon Lloyd am eu gwasanaeth yn ddiweddar. Natalie Morgan fydd yn gwasanaethu ar fore Sul, 17eg o Fawrth.
Bydd Oedfa Gymun am 2 o'r gloch ar Sul y Pasg, Mawrth 31ain yng nghwmni Hefin Wyn.

Mae nifer o aelodau wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Bu farw Rhiannon Edwards a Brenig Bryan yn ystod mis Chwefror. Mae gan y ddau berthnasau agos iawn yn eglwys Rhydwilym.
Cydymdeimlwn, heb enwi neb, gyda'r aelodau hynny. Coffa annwyl iawn am y ddau.

# SAN CLER

Dymunwn benblwydd hapus i David Peterson a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Chwefror 25ain. Penblwydd hapus hefyd i Ffion Farrier, Lon Hafren, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 40 oed ar Fawrth 8fed.

Cydymdeimlwn â Cefin Vaughan a'r teulu, Cae Gwyrdd, ar farwolaeth mamgu Cefin, sef Euronwy Vaughan, gynt o Blaenffos.

**Y Gât**
Cynhaliodd Cyngor Tref Sanclêr ymgynghoriad yn Y Gât i drafod darpariaeth y Parc Chwarae a'r Parc Sglefrio a'r bwriad o sefydlu Coetir Cymunedol yn Sanclêr. Ar ôl cael ymateb arbennig iawn ar lein, cafwyd cyfle i drafod wyneb yn wyneb gyda'r Cynghorwyr Tristy McDermott ac Owain Grant. Fe fydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer cais am grant er mwyn sicrhau datblygiadau er budd y gymuned leol.



Trefnodd Cyngor Tref Sancler brynhawn cymdeithasol i ddathlu Gŵyl Dewi yn Y Gât. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned, pice bach a bara brith a braf oedd gweld Y Gât yn llawn gyda chynifer yno. Croesawyd pawb gan y Maer, Annalyn Davies. Uchafbwynt y prynhawn oedd gwylio Steffan Richards yn gwneud dwy ddawns glocsio ac arwain rhai o'r gynulleidfa mewn dawnsio gwerin. Diolch iddo am yr adloniant ac i bawb a fu yn paratoi o flaen llaw ac yn gweini lluniaeth. Diolch am gyfraniadau CK Foodstores, y Co-op, County Stores, Spar, Mol's Bistro a Lily's Cakes am y pice ar y maen blasus. Diolch hefyd i Llawn Cariad a Chanolfan Arddio Tavernspite am y Cennin Pedr.



Llun o ffenest Y Gât wedi ei haddurno ar Ddydd Gŵyl Dewi.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.**
**Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**
Ffôn: 01994 419230


*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390



Maer San-clêr, Annalyn Davies, a Dewi Griffiths yn eu gwisgoedd traddodiadol ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Y Gât.

Bydd Coffi a Chlonc yn cael ei gynnal bob dydd Iau. Cyfle i siaradwyr Cymraeg newydd ymarfer siarad Cymraeg gyda siaradwyr yr iaith mewn awyrgylch gartrefol. Croeso mawr i bawb 11.00 – 12.30.

## Codi arian i LATCH



**Nadolig 2023**
Llongyfarchiadau unwaith yn rhagor i Santa a Mrs Clôs am godi'r swm anhygoel o £3,475 i LATCH, yr elusen gancr i blant.
Dymuna'r ddau ddiolch o waelod calon i'r trigolion lleol am eu cefnogi. Heb y gefnogaeth hon, ni fyddai codi'r fath swm i'r elusen arbennig hon yn bosib.
Mae'r hen a'r ifanc yn mwynhau ymweliadau Santa a Mrs Clôs a bu'r ddau yn diddori yn Dechrau Disglair a Grŵp Babanod Hen Dŷ Gwyn, yn ogystal â Chartrefi Gofal Dolyfelin a'r Garreglwyd yn San Clêr.

Hoffent ddiolch yn ddiffuant i berchnogion Tafarn y Corvus a'u corachod, i Pethau Olyv ac i siop y Spar am eu cyfraniadau caredig. Diolch o waelod calon i bawb!

## Pwll Trap

Penblwydd hapus iawn i Myra Davies a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 85 oed ar Chwefror 18fed.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Eirian Jones, Dolanog ar Chwefror 24ain. Gwraig dawel, garedig a dihymongar fu'n dysgu am sawl blwyddyn yn Ysgol y Myrddin, Caerfyrddin. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â'i phlant Steffan a Siwan a'r teulu oll.

Dymunir gwellhad buan i Eiryth Holdcroft sydd wedi syrthio ac anafu ei hwyneb.

**Bethlehem Newydd**
Llongyfarchiadau i William a Hannah Griffiths, Blaencors, ar enedigaeth ei mab bach Harri John.



Cynhaliwyd Oedfa Gŵyl Dewi yn Y Gât ar fore Sul, Mawrth 3ydd. Roedd cynulleidfa gref a chafwyd oedfa hyfryd gyda'r aelodau yn cymryd rhan a phlant Ysgol Sul Gibeon yn cyflwyno darlleniadau a chaneuon.


RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP



Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a phice bach. Diolch i'r rhai fu'n paratoi a gweini.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth Mrs Annalyn Davies a'r Parchg Huw George yn oedfaon mis Mawrth. Diolch iddynt.

**Ebrill**

7: Cymundeb. Mr. Hefin Wyn -10.30
14: Oedfa yng ngofal Y Parchg. Huw George - 10.30

Cydymdeimlwn â Hubert Phillips, Waunfawr ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith sef Pugh Hinds, gynt o Tyllwyd, Abergwili.
….hefyd â Brian John, Rose Cottage sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith, Eunice o Gefneithin, priod ei frawd, Leslie.

Dymuniadau gorau i Meirwen Evans, Y Felin a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Fawrth 7fed.
….hefyd i Huw Evans, Penybont gynt a oedd yn 70 oed ar Fawrth 9fed.
....hefyd i Nansi Evans a fydd yn 99 oed ar Ebrill 25ain.

**Diolch:** Dymuna Meirwen Evans ddiolch i bawb am y cyfarchion, a'r rhoddion hael a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar.

# MEIDRIM

**Henoed**

Buom yn dathlu Gŵyl Dewi eleni yng Nghlwb Rygbi Hendygwyn. Daeth 27 ohonom at ein gilydd i fwynhau cawl bendigedig a gafodd ei baratoi gan Christine James. Nid yn unig y cawl oedd yn flasus ond y danteithion arall pwrpasol ar gyfer dydd ein Nawddsant. Offrymwyd gras gan Meirion Morris ac ef hefyd a ddiolchodd i Christine am baratoi'r wledd.

Cawsom gyfarfod byr i drafod digwyddiadau'r dyfodol. Croesawodd Glyn James aelod newydd sef Ambrose Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Ieuenctid Meidrim ar Ebrill 2il, pan fydd Mr Dai Rees yn ein annerch. Wrth y te - Brian ac Eirwen Davies, Jan Harbour, Steph Davies a Sara Ellis.

Yn rhoi anrheg raffl - Shirley Bowen, Morfydd Davies, Jan Harbour a Lawrence Thomas.

# LLANDDEWI

**Bethel**

Y mae gwelliannau mawr wedi cael ei gwneud yng Nghapel Bethel, Llanddewi Efelffre yn ddiweddar. Roedd rhan o'r to wedi dirywio yn wael ac roedd angen ei atgyweirio.

Rydym wedi bod yn addoli yn y festri fach ers tri mis. Ond fe gafodd y to ei atgyweirio yn ystod mis Chwefror ac rydym nôl yn y capel bellach. Diolch i bawb fu yn cynorthwyo gyda hyn a diolch yn arbennig i Talfan Evans ac i Janet ac Owen Phillips.



Atgyweirio'r to



Y to newydd

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648



Dathlu ein bod nôl yn y capel

**Diolch**
Hoffau Pat o Pentroydin, Llanddewi ddiolch i bawb am y cardiau, blodau a'r rhoddion hael a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

# LLANWINIO

**Pwyllgor Adloniant Llanwinio**

Cynhaliwyd cinio blynyddol y pwyllgor ar nos Sadwrn, Chwefror 24ain yn Nhafarn 'Nags Head', Abercych. Ar ôl mwynhau pryd o fwyd blasus, cyflwynodd Geraint Evans y cadeirydd rodd a blodau i Mrs Tegwen James, gan ddiolch iddi am ei gwasanaeth cydwybodol fel trysorydd y pwyllgor am dros ddeugain o flynyddoedd. Cafwyd gair o ddiolch gan Tegwen.



Yn y llun gwelir Eleri Hughes-Gage (Ysg); Tegwen James; Delyth Bebb (Trys.) a Geraint Evans (Cad).

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

"Mis Mawrth unwaith eto
a'r gwanwyn wedi dod
Dydd Gŵyl Dewi ydyw hi."

Ac fel yna oedd hi eleni eto wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi unwaith eto. Roedd yr oedfa Gŵyl Ddewi yng ngofal y plant a'r ieuenctid a braf oedd gweld nhw gyd wedi gwisgo eu dillad Cymreig.



Oedfa Gŵyl Ddewi y plant a'r ieuenctid

John Davies, Cwmbetws, oedd y gŵr gwadd yng Nghinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas. Cafwyd anerchiad arbennig ganddo. A chyn hyn roedd pawb wedi mwynhau pryd blasus iawn wedi ei weini gan staff yr 'Old Board School' yn Sanclêr.



Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y capel - o'r chwith, John Davies, Cwmbetws, Meurig James (Cadeirydd), Bethan Davies, Cwmbetws a Heather Jenkins (Ysgrifennydd)

Wythnos yn gynt cafwyd dathliad Gŵyl Ddewi arall wrth i ni ymuno gyda chapeli yr ardal ar gyfer brecwast yng Nghaffi Beca. Tudur Dylan oedd y gŵr gwadd a chafwyd anerchiad gwych ganddo wedi selio ar hanes y bocsiwr Muhammad Ali yn gwrthod mynd i ryfel.


**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474



Cafwyd oedfa fedydd yn ystod mis Chwefror pan fedyddiwyd Ani, merch Catrin a Shon Rees yn y Tabernacl. Pob dymuniad da i'r teulu bach wrth bawb yn y capel.



Cefin Campbell (ar y chwith) gyda Meurig James.

Cefin Campbell, AS Cymru oedd y gŵr gwadd yng nghymdeithas y capel yn ystod mis Chwefror. Cafwyd araith ddiddorol ganddo cyn y gwnaeth ateb nifer o gwestiynau o'r gynulleidfa yn ymwneud â materion sydd yn poeni pobl heddiw.

Braf oedd croesawu dwy aelod newydd yn oedfa mis Mawrth sef Margaret Rees a'i merch Michelle Harry. Croeso cynnes iddynt wrth pawb yn y capel.

Parhau i fynd o nerth i nerth mae'r Clwb Hwyl ac mae croeso i unrhyw blentyn ymuno gyda ni yn y festri bob prynhawn Gwener rhwng 3.30 a 4.30.

Mae Grŵp Trafod y Beibl yn dal i gwrdd ag yn cael blas ar astudio Llyfr Job yn yr Hen Destament ar hyn o bryd.



Grŵp Trafod y Beibl

O edrych ymlaen mae yna ddathliad mawr gyda ni ym mis Mai pan fyddwn yn dathlu 150 mlynedd ers agor y capel. Croeso i bawb ymuno gyda ni ar gyfer yr oedfa ddathlu ar brynhawn Sul, Mai 19eg am 2.00.

Dyma drefn yr oedfaon yn y Tabernacl am yr wythnosau nesaf a chroeso cynnes i bawb:

Mawrth 29ain : 10.30 yn y **Trinity, Llanboidy** : Oedfa'r Groglith
Mawrth 31ain: 11.00 - Oedfa'r Pasg
Ebrill 7fed: 10.30 - Oedfa Gymun dan ofal Elonwy Phillips, Hendy-gwyn
Ebrill 14eg: 11.00 - Oedfa
Ebrill 21ain: 9.30 - Oedfa
Ebrill 28ain: 11.00 - Oedfa
Rhaghysbyseb:
Mai 19eg: 2.00 - Oedfa Ddathlu 150 ers agor y capel

**Diolch**

Hoffai Nesta a'r teulu ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli John, gŵr, tad, tadcu a hen-ddatcu annwyl, Pen-yr-ardd, Hendygwyn, gynt o Ganolfan Garddio Hendygwyn. Diolch yn fawr iawn.

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Fel arfer cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Croesawyd pawb gan y cadeirydd Mr Claude James. I ddechrau eisteddodd pawb i lawr i fwynhau cawl bendigedig wedi ei baratoi


the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

gan Mrs Christine James. Wed i bawb orffen bowlen, neu ddau gan rhai, diolchwyd i Christine am y wledd gan y cadeirydd. Ef hefyd cyflwynodd y gwr gwadd am y noson sef Mr James Evans.

Mab Glyn Evans, un o'n aelodau yw James a chafodd ei eni yng Nghros Inn, Llanon pan fu'r teulu yn byw ac yn ffermio yng Ngheredigion. Soniodd James ei fod wedi ymddiddori yn gynnar yng ngherddoriaeth gan ddechrau dysgu chwarae'r piano yn saith oed. Er mwyn cael mwy o gyfleoedd cerddorol symudodd i Ysgol Gynradd Gymraeg Aberystwyth. Yno fel aelod o gôr llwyddianus yr ysgol cystadleuwyd yn nifer o Eisteddfodau'r Urdd ac hefyd Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen. Yno cafodd y profiad o ganu gyda Syr Bryn Terfel.

Symudodd wedyn i Ysgol Penweddig lle eto cafodd digon o gyfleoedd i berfformio yn eisteddfodau a chael llwyddiant yn arbennig gyda'r parti bechgyn. Ar ôl gwneud yn dda iawn yn yr ysgol, llwyddo i gael lle yng Ngholeg yr Iesu Caergrawnt. Er mai Saesneg oedd yn astudio yn y coleg, treuliodd llawer o'i amser yn perfformio gan ei fod yn aelod o fand ac hefyd actio, a sefydlodd gymdeithas Jazz yno. Ar ôl gadael coleg bu'n dysgu yn Ysgolion Bro Myrddin, Preseli ac ar hyn o bryd yn gweithio yn Ysgol Caer Elen, Hwlffordd. Mae'n cadw'n brysur gan berfformio gyda gwahanol fandiau ac yn aelod a ddau gôr. Mae hefyd wedi trefnu nifer o gyngherddau yn lleol gan gasglu arian mawr at wahanol elusennau.

Rhwng son am wahanol gyfnodau yn ei hanes bu James hefyd yn rhoi hanes rhai o'n caneuon adnabyddus: Ar Lan y Mor, Myfanwy, Sosban Fach, Rachie, Delilah a Sosban Fach. Rhoddodd hanes darddiad y caneuon a sut oeddynt wedi datblygu. Y rhan fwyaf ohonynt wedi dod o draddodiad yr eisteddfod, capel neu'r pyllau glo. Ar ôl son am gân roedd disgwyl i'r aelodau ganu'r gân gyda James yn cyfeilio ar yr allweddellau.

I orffen cafwyd hanes Hen Wlad Fy Nhadau, gyda James yn dweud mai hon oedd yr anthem gyntaf mewn unrhyw gamp i gael ei chanu cyn gêm rhyngwladol. Hyn yn 1905 pan yn chwarae'r Crysau Duon. Gorffenwyd y noson trwy gyd ganu'r anthem.

Diolchwyd i James am noson addysgiadol a ddiddorol

# Cylch Meithrin Hywel Dda

**Clwb 200**

Diolch enfawr i bawb sydd wedi cefnogi Clwb 200 Cylch Meithrin Hywel Dda eleni. Mae hwn wedi helpu codi arian hanfodol i'r elusen. Wrth brynu rhif, rydych yn galluogi'r cylch i gadw ei drysau ar agor, talu staff, prynu offer a chynnig tripiau addysgiadol i'r plant.

Hoffwn nawr eich gwahodd i adnewyddu eich aelodaeth os y dymunwch (o Ebrill 2024 ymlaen). Hefyd, mae cyfle i aelodau newydd brynu rhif(au) ac ymuno â'r Clwb 200.

Mae un rhif yn £1 y mis - £12 y flwyddyn. Rydym yn tynnu'r raffl bob mis, gyda gwobrau yn mynd 1af, 2il a 3ydd. Gwobr ddwbl ym mis Rhagfyr a mis Mawrth!

Aelodau: Os hoffech aros yn aelod, plis talwch mewn i gyfrif banc Clwb 200 (£12 pob rhif), gan ddefnyddio eich enw fel cyfeirnod. Danfonwch ebost i ni hefyd i ddweud eich bod wedi talu: cylchhyweldda@icloud.com

Enw cyfrif : Clwb Cylch Meithrin
Côd didoli: 56-00-42
Rhif cyfrif : 37227696

Aelodau newydd: Danfonwch ebost i ni er mwyn cael ffurflen gais ac wedyn gwneud y taliad mewn i'r cyfrif banc uchod.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.
Buddug Davies
(Ysgrifennydd)

**Enillwyr Clwb 200 Cylch Hywel Dda**

Mis Ionawr
1 - £40 - Rhif 60 - Barbara Edwards
2 - £20 - Rhif 111 - Agust Morais
3 - £10 - Rhif 64- Peter Welch

Mis Chwefror
1 - £40 - Rhif 30 - Diane Griffiths
2 - £20 - Rhif 106 - Natalie Evans
3 - £10 - Rhif 8 - George's Fish & Chips

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn

**Penblwydd Hapus yn 80 oed**

Penblwydd hapus i Gwyneth Davies, Maes-yr-onnen, Hendygwyn-ar-Dâf yn 80 mlwydd oed ar Fawrth y 12fed. Llawer o gariad oddi wrth Denzil a'r teulu i gyd.

DAVID HARRIES & Co
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN, CRYMYCH, SIR BENFRO





Y Cylch Meithrin yn dathlu Gŵyl Dewi

**Taith i Fferm Fforest**



Trefnwyd taith yn ddiweddar i Fferm Fforest Hendygwyn i weld y defaid a'r ŵyn. Roedd cyffro mawr wrth weld y defaid a chyfle i roi llaeth i'r ŵyn gyda photel, profiad arbennig i'r plant bach. Diolch yn fawr i Sally Windsor am y croeso cynnes.

**Diwrnod y Llyfr**

Mae'r plant wedi mwynhau ymweliad â Oasis/Dave's yn Hendygwyn i gynnal sesiwn stori a chân i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Diolch yn fawr i Sheila am y croeso cynnes, roedd hi'n garedig iawn hefyd yn rhoi llyfrau hyfryd i'r plant i'w cadw.



Dathlu Diwrnod y Llyfr

## Cylch Ti a Fi Hywel Dda



Dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Dathlu Diwrnod y Llyfr

**Clwb 100 Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda**

| Enillwyr Chwefror | Enillwyr Mawrth |
|---|---|
| £60 - Robin Poore | £60 - Gordon Lewis |
| £50 - Christine Richards | £50 - Meurig James |
| £40 - Undeg Evans | £40 - Julian Kennedy |
| £30 - Jean a Ithel Parri Roberts | £30 - Colin Harries |

TŶBACHTWT
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831141/ 07900 692678

ORWE LTD
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

GP Architecture Studio
Arbenigo mewn dyluniadau preswyl pwrpasol
Adnewyddu amryw o Gartrefi
Anheddau Pwrpasol Newydd
Addasiadau Cyfoes
Cadwraeth Traddodiadol
Facebook - @GPArchStudio
Instagram - @gp.archstudio
Email - info@gparchstudio.wales
RIBA Chartered Practice
arb

# LLANDYSILIO

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Ken a Nia Davies, Cae Glas, Llandysilio, ar ôl i Ken golli ei fam Margaret Haulwen Davies, o Y Mot. Priod annwyl y diweddar John, mam gariadus i Keith, Shan, Ken ac Anthony, mam-yng-nghyfraith barchus i Brian a Nia, mamgu dyner Aled, Dylan, Rhys, Rhian a'r diweddar Hedd, hen-famgu hoffus Arabella, Aria, Hari, Cian a Berti a chwaer dyner.

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus iawn i Leila Davies, o Landysilio gynt, a oedd yn 85 oed ar Chwefror 25ain. Oddi wrth Wendy a'r teulu oll. Mae Leila yn byw yn Arberth nawr.



Penblwydd hapus i Rhian Murrow, Nantyffin a oedd yn 40 oed ar 21ain o Chwefror.

**Genedigaeth**



Llongyfarchiadau mawr i Rebecca a Ryan Roblin-Pearce ar enedigaeth mab ar 18fed o Chwefror.

**Blaenconin**

Dathlwyd Gŵyl Dewi hyfryd yn Blaenconin, dydd Sul Mawrth 3ydd. Eira a Hilary oedd wrth y llyw. Cafwyd hanes Dewi Sant ac hefyd digon a fara brith a phicau ar y maen. Diolch iddynt.

Bydd y Cymundeb nesaf Dydd Sul, Mawrth 17eg.

## *Llongyfarchiadau*



Llongyfarchiadau i Ellie Robinson, merch Julian a Sonia Robinson o Parc-y-Bryn, Llandysilio. Graddiodd Ellie yn ddiweddar o Brifysgol De Cymru, gyda Gradd Meistr Ceiropracteg, (MChiro) ac hefyd cafodd Wobr Rhagoriaeth Academaidd am radd uchaf y flwyddyn. Cynhaliwyd y seremoni yng Nghynhadledd Ryngwladol yn y Celtic Manor, Casnewydd.

Ers mis Medi mae Ellie wedi bod yn mwynhau gweithio mewn Clinic Ceiropracteg yn Nhrefynwy.

# CLUNDERWEN

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â theulu Kathleen Elizabeth Phillips, Central, fu farw ar 11fed o Chwefror yn 78 oed. Priod hoff y diweddar Eddie, mam annwyl Gail a Terry, Sam a Toyo, mamgu dyner Natalia, Annabel, Joe, Zoe a'u partneriaid, hen-famgu i Edie, annwyl chwaer yng nghyfraith a modryb, ac yn cael ei addoli gan Poppy.

**Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio**



Ar nos Lun, 4ydd o Fawrth, aeth y gwragedd lawr i Inwood, Cold Inn ar bwys Kilgetty, i Weithdy llwyau caru.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

Llwyau Caru wedi'u cerfio â llaw ar gyfer pob achlysur. Hefyd amrywiaeth o anrhegion pren a mwy. Diddorol iawn. www.thelovespoonworkshop.com.

Roedd yn Ddiwrnod Rhyngwladdol y Merched ar ddydd Gwener, 8fed o Fawrth. Aeth rhai o'r merched lawr i bwyllgor yng Nghanolfan Gymunedol Camrose i ddathlu, lle roedd tri o siaradwyr diddorol iawn, yn cynnwys dwy wraig o dîm 'Cruising Free' a fydd yn rhwyfo ar draws yr Atlantic flwyddyn nesaf.

**Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen**
Llongyfarchiadau enfawr i Llinos Ford ar ennill yr actores orau yng nghystadleuaeth drama saesneg C.Ff.I Sir Benfro. Hefyd i'r Clwb ar ddod yn 5ed.




Noson hwylus iawn, pan wnaeth y Clwb rhoi y Drama 'Gorforths Fete' a perfformiadau eraill ymlaen yn y Pentre ar nos Fawrth, Chwefror 27ain. Da iawn.

# BLAENWAUN

**Moriah**
Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am oedfa arbennig ar Sul, Mawrth 3ydd ar thema Gŵyl Dewi.

Trefniadau yr oedfaon:-
Mawrth 31ain. Cymun undebol. Bryn Iwan. 2 o'r gloch Parch Gareth Ioan.
Ebrill 7fed 10.30. Parchedig Gareth Ioan.
Ebrill 21ain. Cymun 2 o'r gloch. Dafydd Evans.
Mai 5ed. 3.30 Cymun. Parchedig Gareth Ioan.
Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau i Carolyn Powell, Fferm Blaenwaun ar ddathlu ei phenblwydd yn 70oed ar Fawrth 7fed. Hefyd llongyfarchiadau i Patrick a Carolyn bydd yn dathlu eu Priodas Aur ar 30ain o Fawrth. Pob dymuniad da a mwynhewch y dathlu.

# LOGIN

**Calfaria**
Oedfaon
Diolch o galon i'r Parchedig Huw George a Mr Lyndon Lloyd am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

**Brecwast Gwyl Ddewi**
Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 25ain - gweler adroddiad llawn o fewn tudalennau'r rhifyn hwn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Ebrill
14eg: Shan Jones Cymun am 2.00
28ain: Annalyn Davies - Cwrdd am 10.30
Mai
12fed: Alun Lenny - Cymun am 10.30
26ain: Ken Thomas - Cwrdd am 2.00

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Margaret Williams sydd newydd dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty..

**Penblwydd**
Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Anthony Jenner fu'n dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar ddechrau'r mis.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau i Nigel a Glesni Vaughan fydd yn dathlu eu Priodas Ruddem ar Ebrill 21ain.

**Cyrddau Blynyddol Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion**
Cynhelir cyrddau blynyddol y Gymanfa yng Nghalfaria ar ddydd Mawrth, Mai 14eg ac estynnir croeso cynnes i bawb. Bydd fwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

# CWM MILES

Dymuniadau gorau i ddau aelod o'r capel Geraint James, Coedllys, Login a Bryan John, Penyberth, Llandysilio sydd wedi bod yn anhwylus. Mae Geraint adre erbyn hyn ond mae Bryan yn dal yn yr Ysbyty. Mae'r aelodau yn

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

EUROPA
FFASIYNAU GWALLT
Heol y Pentre, San Clêr
Mae yna groeso i'r gwŷr hefyd
Wendy, Dawn a Kirsty
Ffôn: 01994 230462

meddwl amdanynt ac yn dymuno gwellad buan iddynt.

Disgwylir Nigel Davies mewn oedfa yng Nghwm Miles ar Sul, Ebrill 30ain am 2 o'r gloch. Bydd yn oedfa Gymun.

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Graham Parry, Y Garej, Login yntau hefyd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

---

# LLANGYNIN

**Neuadd Capel y Bryn**

**Bore Coffi**

Fore ddydd Sadwrn, Mawrth 2il, cynhaliwyd Bore Coffi yn y Bryn unwaith eto o 10 - 12 o'r gloch. Dyma'r ail fore coffi i Alex a Wade Coope ei gynnal yn y Neuadd ac mae'r fenter yn profi'n boblogaidd iawn ymysg trigolion y pentref ac yn tynnu oedolion, pobl ifanc a phlant o bob oedran ynghyd i gwrdd â'i gilydd yn y Bryn a chael cyfle i fwynhau sgwrsio a chymdeithasu dros baned.

**Cawl a Chân**



Roedd Neuadd y Bryn dan ei sang nos Fercher, Mawrth 6ed, ar gyfer noson o gawl a chân i ddathlu Gŵyl Ddewi. Braf gweld y Neuadd yn llawn a phob un wedi mwynhau gwledd o gawl twym, bara a chaws, pice ar y maen a chwpanaid o de neu goffi yng nghwmni cyfeillion.

I goroni'r cyfan, roedd Haydn Lloyd, Ffynnnonlwyd, sy'n aelod o Gôr Meibion Caerfyrddin ac yn digwydd bod yn Gadeirydd y Côr eleni, wedi trefnu i nifer o'i gyd-aelodau ddod i'n diddanu, a chafwyd gwledd o gân ganddynt. Roedd y gynulleidfa wrth ei bodd yn ymuno i gyd-ganu ambell hen ffefryn, a'r canu cynulleidfaol arbennig yn codi'r to!

Cyflwynwyd y caneuon gan yr arweinydd, Mr Wyn Maskell ac yn cyfeilio roedd Mrs Heather Williams gyda Mrs Sylvia Thomas yn cynorthwyo. Gwnaed y diolchiadau ar ran y Côr gan Haydn Lloyd a diolchodd Caroline Jones, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Capel y Bryn, i'r artistiaid ac i Haydn. Diolch i'r gwragedd a fu'n paratoi'r cawl blasus a'r pice ar y maen a diolch o galon i Mr. Haydn Lloyd (Gwasanaethau All Pump) am ei drefniadau a'i haelioni.

Noson wych – a phob lwc i'r Côr yn ei cyngerdd nesaf ym mis Ebrill pan fyddant yn canu yn Neuadd Albert, Llundain.

**Bingo**

Bingo'r Bryn nos Fercher, Mawrth 27ain. Drysau ar agor am 7 o'r gloch. Gêm gyntaf am 7.30 o'r gloch. Llyfrau £6 wrth y drws. Te/coffi a raffl yn ystod yr egwyl. Croeso i bawb!




**Diolch**

Hoffai Roy Reynolds, Tymore, Llangynin ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu dymuniadau da a'i haelioni ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed. Derbyniwyd £750 yn lle anrhegion tuag at elusen Marie Curie.

FFENESTRI M.W.J WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

# PENYBONT

## C Ff I Penybont

### Cystadleuaeth Adloniant C Ff I

Daeth llwyddiant i'r clwb ar lefel sirol wrth i ni berfformio Teechers yn y gystadleuaeth ddrama. Cipiwyd y wobr gyntaf yn Neuadd y Gwendraeth a chafodd Mared Evans ei cyhoeddi'n actores orau'r ŵyl yn y categori o dan 28 oed. Aeth tlws y cynhyrchwyr gorau i Carwyn Evans, Jean Lewis a Iola Wyn. Er na ddaeth cerdyn yn ôl i Sir Gâr ar lefel Cymru, cafodd y criw ddiwrnod bendigedig a phrofiadau gwych yn perfformio yn Neuadd Brycheiniog. A llongyfarchiadau i Daniel O'Callaghan ar gyrraedd rhestr fer y perfformiwr gorau.

Perfformiwyd y ddrama mewn noson gawl yn Neuadd Bancyfelin. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac yn arbennig i'r rhai a fu'n paratoi, coginio a gweini'r cawl blasus.



Cast y ddrama

Yng nghystadleuaeth bowlio'r sir, daeth y tîm iau, sef Aled Thomas, Celyn Richards, Gwenan Morris ac Erin Jones yn ail. Llongyfarchiadau i'r pedwar !

### Stori Standiau Llaeth Sir Gâr

Ganol Chwefror, bu'r clwb yn brysur yn cofnodi'r standiau llaeth sy'n dal i sefyll yn ein hardal. Braint yw cyfrannu at brosiect sy'n cofnodi elfen allweddol o hanes a threftadaeth cefn gwlad Sir Gâr - y standie llaeth!



Diolch i Anthony a David Jin Talog am y croeso arbennig yn Rhyd y Garreg Ddu, wrth i ni fynd ati gyda'r gwaith cofnodi. Mae'r apêl wedi cael ei sefydlu i gasglu lluniau ac atgofion am y standiau llaeth yn Sir Gâr, cyn iddyn nhw ddiflannu. Roedd lorïau o'r Bwrdd Marchnata Llaeth yn casglu llaeth oddi arnyn nhw tan ddiwedd y 1970au.



Anthony Rees, Talog sydd wedi sefydlu yr apêl, ac mae e'n awyddus i sicrhau fod yna gasgliad parhaol ar gof a chadw o'r standiau. Byddai Anthony a'r Ffermwyr Ifanc wrth eu bodd yn clywed straeon ffermwyr, gyrwyr lorïau, neu weithwyr llaeth a allai gyfrannu at y prosiect.

Mae croeso mawr i chi anfon e-bost at Anthony ar milkstands@proton.me os oes gennych straeon a lluniau.

### Canolfan Gymunedol Penybont



Pleser oedd croesawu Mr Tweli Griffiths i Ganolfan Gymunedol Pen y bont yn ddiweddar i sôn am ei yrfa fel newyddiadurwr. Rhannodd amryw o straeon difyr ac emosiynol yn ymwneud â'i waith fel darlledwr yng Nghymru ac ar draws y byd. Bu'r gynulleidfa'n ffodus hefyd o gael eu swyno ag ambell dric hud a lledrith - diweddglo hyfryd i noson ddiddorol iawn.

# TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Gwenllian Evans, Blaenwauntwr ar ei dyweddiad yn ddiweddar â Jonathan Pearce. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Gwellhad buan i Mark Thomas, Bryn Glas ar ôl derbyn

llawdriniaeth yn ddiweddar yn dilyn anffawd adref.

Cydymdeimlwn â Mr Neville Williams, Sunny Hill, a'r golli ei wraig Elan yn ddiweddar.

Dymuna Beryl Thomas, Penlan ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar. Hefyd, diolch i dair ffrind arbennig am drefnu cinio hyfryd mewn gwesty yn Gwbert: Brenda, Myrtle ac Eiddwen. Diolch o galon i chi i gyd.

Llongyfarchiadau i Lenny ac Angela ar dderbyn gwobr am eu hymroddiad ac ymrwymiad a'r gwahaniaeth maent yn ei gwneud i fywydau pobl ifanc. Arbennig.

Cafwyd gwasanaeth Gwŷl Dewi arbennig yng Nghapel y Graig. Braf oedd gweld cymaint o blant yn cymryd rhan yn y gwasanaeth.

## Capel y Graig

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol ym mis Chwefror a dechre Mawrth gyda: Mr Dafydd Evans ar yr 11eg o Chwefror; Karen Owen ar yr 18fed (Cymun), 25ain, a 3ydd (oedfa Gŵyl Ddewi y Plant a'r Ieuenctid), 10fed (Cymun) o Fawrth. Diolch i'r plant am gyflwyno eitemau amrywiol a graenus ac i Ffion Harries, Lowri Jones, Rhian Thomas a Dafydd Phillips am gymryd rhan. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd Tê Cymreig yn y ganolfan. Diolch i bawb am y danteithion blasus. Diolch i Eleri Rees ac Eirlys Phillips am gyfeilio yn yr oedfaon ac am drefnu rhaglen y plant.



Plant yn oedfa Gŵyl Dewi gyda Karen Owen

Trist yw nodi marolwaeth aelod a fu'n gefnogol i'r achos yng Nghapel-y-Graig, Mrs Elan Williams, Sunny Hill, Trelech a hunodd ar ddydd Gwener 16eg o Chwefror. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol hollol breifat ym Mharc Gwyn, Arberth. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'i gŵr Neville, ei brawd y Parchg Emyr Lyn Evans a'r holl gysylltiadau.

**Eglwysi'r Ofaleth – Cyngerdd Carwyn Ellis**
Cynhelir Cyngerdd Carwyn Ellis ar nos Sadwrn, 20fed o Ebrill yng Nghapel y Graig am 7.30. Yn cymryd rhan hefyd fydd Aelwyd Hafodwenog ac Ysgol Hafodwenog. Tocynnau ar gael oddi wrth Mrs Alyson Harries, 01994 484359 a diaconiaid eglwysi'r ofalaeth. Pris £10; plant Ysgol gynradd £5.




## Aelwyd Hafodwenog

**Canlyniadau Eisteddfod Rhanbarth**
Wedi blwyddyn hynod o brysur yn 2023, mae brwdfrydedd yr aelodau wedi bod yn heintus unwaith eto eleni gyda llu o gystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Sir Gorllewin Myrddin ym mis Mawrth. Erbyn hyn, mae'r cystadlaethau dan 25 oed yn mynd yn syth i'r rownd genedlaethol ond i'r aelodau iau, cafwyd noson llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Ddawns Gorllewin Myrddin ar nos Lun, 4ydd o Fawrth yn Ysgol Bro Myrddin ac ym Mhontyberem yn Eisteddfod Uwchradd ar ddydd Mercher, 6ed o Fawrth.

**G. & J.M. Phillips**
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

**DERI PAGE**
**CIGYDD**
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**GT TYRES**
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

Gweler canlyniadau llawn isod ac edrychwn ymlaen nawr at y rownd genedlaethol ym Meifod!

1af: Neli Rees – Dawns Unigol i Ferched Bl.9 ac iau
1af: Abel Rees – Dawns Unigol i Fechgyn Bl.9 ac iau
1af: Aelwyd Hafodwenog – Côr Bl.9 ac iau
1af: Aelwyd Hafodwenog – Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau
2il: Megan Evans – Dawns Unigol i Ferched Bl.9 ac iau
2il: Aelwyd Hafodwenog – Dawns Werin Bl.10 a dan 19 oed
2il: Gwenan Morris – Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed
2il: Olwen Roberts – Perfformiad Theatrig Unigol Bl.10 a dan 19 oed
3ydd: Magi Evans – Unawd Merched Bl.7-9
3ydd: Mabli McCue – Llefaru Unigol Bl.7-9
3ydd: Aelwyd Hafodwenog – Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.7-9 (Ymgom)

# BANCYFELIN

## Gibeon

Cafwyd oedfa hyfryd dan ofal y Parch. Desmond Davies ar brynhawn Sul, Chwefror 11eg. Diolch iddo am ei wasanaeth ac i Hilary am gyfeilio.

Mrs. Maria Evans oedd a gofal yr oedfa ar Chwefror 25ain. Cafwyd neges gref ganddi. Diolch iddi ac i Hilary am gyfeilio.

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel Bancyfelin ar Fawrth 1af. Paratowyd yr oedfa eleni gan wragedd Palesteina a hynny cyn cyflafan y misoedd diwethaf. Roedd cynnwys yr oedfa yn deimladwy iawn ac ni ellid peidio â meddwl am eu profiadau a'u tristwch ers llunio'r oedfa. Gweddiwn drostynt. Diolch i Iona am drefnu'r oedfa yng Nghylch Bancyfelin, i Annalyn, Marian, Hilary, Iona a Beti-Wyn am gymryd rhan dros Gibeon ac i Gapel Bancyfelin am y croeso.

Cynhaliwyd y Pwyllgor Gymanfa Bwnc ar Chwefror 26ain. Cynhelir y Gymanfa / Oedfa Undebol eleni ar Fai 12fed am 1.30 o'r gloch yng Nghapel Ffynnonbedr.



Bu nifer o'r aelodau a phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn yr oedfa Gŵyl Dewi yn Y Gât. Dyma lun o blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn canu. Buon nhw hefyd yn cyflwyno cerdd a darlleniad a chafwyd unawd gan Holly.

### Cyflwyno siec



Dathlodd Carwen Howells ben-blwydd arbennig yn ddiweddar! Yn hytrach na derbyn anrhegion, ei dymuniad oedd derbyn cyfraniadau tuag at Uned Cancr Y Fron, Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli. Dyma Carwen yng nghmwni ei merched Veronica a Cheryl yn cyflwyno siec o £1,650 i'r uned. Mae'r Uned hon yn agos iawn at ei chalon hithau a'i teulu. Dymuna Carwen ddiolch i bawb a gyfrannodd.

### Dydd Gweddi'r Byd Eang



Mae Gwener, cyntaf Mawrth bob blwyddyn yn Ddydd Gweddi'r Byd-Eang. Cynhaliwyd yr oedfa eleni yng Nghapel Bancyfelin a chymeryd rhan gan aelodau Bancyfelin, Cana, Gibeon a Ffynnonbedr ynghyd â'r Parchg Beti Wyn James. Lluniwyd yr oedfa gan wragedd Palesteina. Braint oedd ymuno eleni eto mewn ton enfawr o weddi mewn ieithoedd brodorol o amgylch y byd, sy'n dechrau wrth i'r haul godi dros Samoa a pharhau wrth iddo gwmpasu'r ddaear a gorffen dros y Mor Tawel wrth i'r haul fachlud dros Samoa Americanaidd. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd rhan yn yr oedfa ym Mancyfelin ac i bawb a oedd yn bresennol yn y gynulleidfa.




**Cinio Gŵyl Dewi**



Mwynhaodd aelodau Cana a Bancyfelin Ginio Gŵyl Dewi blasus iawn yn festri Cana bnawn Sul, 25ain Chwefror. Diolch i Sheila Phillips am baratoi'r cawl hyfryd ac i'r gwragedd am y cacennau ac am weini. Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan Lowri Sion a'r plant (mawr a bach!) wrth eu bodd yn gwrando arni. Diolch i bawb am brynhawn ardderchog.

**Gorymdaeth Gŵyl Dewi**




Daeth tyrfa fawr ynghyd i dref Caerfyrddin fore Sadwrn, 2il Mawrth ar gyfer yr orymdaith Gŵyl Dewi. Braf oedd gweld eglwysi'r Ofalaeth yn cael eu cynrychioli yn y parêd. Dyma lun o Rachel, Lyn a Huw yn cario'u baneri!

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**

Braf oedd cael gwasanaeth y Parch. Guto Llywelyn yn oedfa gymun ar Sul, Mawrth 3ydd a diolch iddo. Cafwyd hanes Dewi Sant. Diolch am bresenoldeb Eifiona Lewis a Dewi Griffiths.

# EFAILWEN

**Hoelion Wyth - Cangen Beca**

Croesawyd yr aelodau a'r siaradwr gwadd, Cris Tomos o Hermon gan ein Cadeirydd, Eifion Evans. Mae Cris yn adnabyddus i ni gyd fel dyn y grantiau. Bu'n cyflwyno gwybodaeth am ei waith fel swyddog Prosiect gyda'r sefydliad trydydd sector, Planed.

Mae Cris wedi bod yn gweithio i Planed ers sawl blwyddyn ond ers 2023 yn bennaf ar brosiect Perthyn sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau cynaliadwy yn yr hen Sir Dyfed.

Cyflwynwyd llawer iawn o ffeithiau a ffigurau i ni am y niferoedd o grantiau sydd wedi dod i'n hardaloedd, gan nodi, prosiect Canolfan Hermon, prosiect Cwm Arian, y Stiwdio ar sgwâr Hermon, yr hen Gop, y swyddfa heddlu a'r hen adeilad y llys yn Aberteifi. Yn ddiweddar hefyd fe wnaeth Gŵyl Fel'Na Mai elwa o nawdd gan brosiect Perthyn.

Dau brosiect weddol lleol sy ar y gweill ar hyn o bryd ydi ail-sefydlu cwmniB recordio Fflach yn Aberteifi a hefyd datblygu hen Gapel y Tabernacl, Aberteifi i fod yn ganolfan farddoniaeth. Prosiect arall i elwa o arian grant ydi'r prosiect addasu capel Bryn Myrnach yn Hermon.

Cyn gorffen ei gyflwyniad pwysleisiodd Cris am bwysigrwydd paratoi cynllun gweithredu cymunedol cynhwysfawr cyn ymgeisio am nawdd grant.

Cawsom noson ddiddorol yn ei gwmni a diolchwyd iddo gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.



Ken Thomas, Eifion Evans, Eurfyl Lewis yng nghwmni Cris Tomos.



# LLANBOIDY

**Trinity**

Cynhaliwyd Oedfa Gŵyl Ddewi Unedig yn Eglwys Sant Brynach a hynny ar Fawrth 1af. Roedd yr oedfa dan ofal plant Ysgol Bro Brynach a chafwyd bore i'w gofio wrth iddynt adrodd a chanu darnau addas ar gyfer yr achlysur. Diolch yn fawr i bawb o ysgol Bro Brynach.



Rhai o'r bobol fu yn helpu gyda Oedfa Gwyl Ddewi Eglwys Sant Brynach.

Ar ddydd Sul, Mawrth 3ydd cafwyd oedfa Gwyl Dewi yn y festri gyda'r aelodau yn cymryd rhan. Cafwyd neges bwrpasol gan y gweinidog, Guto Llywelyn.

## *Penblwydd Hapus yn 90 oed*



Llongyfarchiadau mawr i Merle Evans a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Mae Merle yn parhau i chwarae rhan flaenllaw ym mhopeth da sydd yn mynd ymlaen yn Llanboidy gan gynorthwyo yn y capel, yr eglwys a'r ysgol. Pob dymuniad da wrth bawb yn y capel ac yn y pentref.

### Pum Cenhedlaeth



Dyma lun o Merle Evans, Delfryn, ei mab Gronw, ei hwyres Tracy, gor-wyres Chloe a gor-gor ŵyr Ely.

**Chwaeroliaeth**

Daeth yr aelodau ynghyd i'r festri ar Chwefror 21ain a croesawodd y llywydd, Wenfys Rees y gwestai sef Gwawr Lewis. Bu'n rhoi hanes ei gwaith amrywiol fel ymchwilydd i'r rhaglen ffermio a diolchodd Wenfys iddi am brynhawn diddorol. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Mair Morgan a Gwenda Williams.



Gwawr Lewis (yn y blaen yn y gwyn) a fu yn annerch Chwaeroliaeth y Trinity.

**Sefydliad y Merched**

Cyfarfu'r aelodau yn y neuadd ar Chwefror 8fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Bu Denise a Valerie mewn cyfarfod i ddathlu ymddeoliaed Pat Thomas fel ysgrifennydd y Sir wedi blynyddoedd o wasanaeth ac aeth tair o'r aelodau ar drip i Lundain a mwynhau'n fawr. Atgoffwyd yr aelodau am Sioe y Sir ym mis Gorffennaf.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn a Hubert Phillips, Waunfawr a'r teulu wedi iddo golli ei frawd-yng nghyfraith yn ddiweddar.

## Sul y Beibl - Cylch Beca 2023/24

Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Beibl yng Nghapel Horeb Maenclochog ar y trydydd Sul yn Ionawr, yn ôl yr arfer.

Daeth cynrychiolaeth dda ynghyd a diolchwn i bawb fu'n gyfrifol am baratoi'r digwyddiad ac i'r rhai wnaeth gymryd rhan.

Dyma gyfanswm yr arian dderbyniwyd ar gyfer Cymdeithas y Beibl oddi wrth y capeli yng nghylch Beca, yn ogystal â'r casgliad ar y dydd.

| | |
|---|---|
| Bethesda, Llawhaden | £25 |
| Hebron | £25 |
| Bethel, Mynachlogddu | £75 |
| Cefnypant | £25 |
| Glandwr | £25 |
| Horeb | £20 |
| Nebo | £50 |
| Rhydwilym | £50 |
| Calfaria, Login | £100 |
| Pisga, Llandysilio | £85 |
| Blaenconin, Llandysilio | £25 |
| Casgliad | £80 |
| **Cyfanswm** | **£585** |

Gwnaeth aelodau Capel Nebo gytuno i gymryd yr awenau i drefnu'r gwasanaeth nesa ar ddydd Sul, 19 Ionawr 2025.

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL LLYS HYWEL

**Eisteddfod**



Llongyfarchiadau i'r plant a wnaeth gynrychioli Llys Hywel yn wych yn Eisteddfod Gylch Cwm Taf mis diwethaf. Cawsom ni 3ydd yn y parti unsain, 2il yn y parti llefaru a da iawn i Siraj am ennill y llefaru ail iaith. Ymlaen i'r cam nesaf!

**Rygbi**




Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Dyffryn Taf i gymryd rhan mewn diwrnod hwyl rygbi gan orffen gyda gemau Tag. Roedd y plant wedi mwynhau mas draw!

Hefyd, hoffwn longyfarch y ddau ddisgybl yma sydd yn cynrychioli ysgolion Caerfyrddin yn rygbi eleni- Gwych!

**Dydd Gwyl Dewi**

Braf oedd gweld plant yr ysgol yn gwisgo lan yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ddechrau'r mis. Cafodd y plant gyfle, yn eu dosbarthiadau, i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau- siopa am gynhwysion lleol i baratoi a choginio cawl blasus a phice ar y maen.



Yn ogystal â hyn, bu disgyblion Cyngor yr Ysgol o gwmpas y dref i rannu'r 'pethau bychain' gan roi cennin Pedr i bobl ar hap ar y stryd. Aeth hyn lawr yn dda iawn gyda'r gymuned a rhoi gwen ar eu hwynebau!




Hefyd, aeth rhai o'r disgyblion i ganu yng nganolfan Hywel Dda ar ôl clywed neges yr ewyllys da. Hefyd, bu'r plant yn canu yn neuadd y dref ar gyfer noson Cawl Cyngor y Gymuned. Da iawn a diolch i bawb a wnaeth gymryd rhan.

**Diwrnod y Llyfr**

I ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni, gwisgodd y plant lan yn seiliedig ar eu hoff lyfr. Cymerwyd rhan mewn sawl gweithgaredd hefyd, gan gynnwys, bas data llyfrau, ysgrifennu adolygiad llyfr, gwaith animeiddio a bod yn greadigol gyda thatws wrth greu cymeriad allan ohonynt!


# YSGOL GRIFFITH JONES

**Dydd Gŵyl Dewi**



Roedd yr ysgol yn fôr o goch ar ddiwrnod Gŵyl Ddewi gyda'r plant yn eu crysau coch a'u gwisgoedd traddodiadol. Cafodd pawb fasned o gawl i ginio. Trefnwyd gweithgareddau i ddathlu traddodiadau Cymru ym mhob dosbarth gan gynnwys sesiynau coginio pice ar y maen, creu cennin pedr, ac ymchwilio i fywyd a gwaith Dewi Sant. Cynhaliodd y Llysgenhadon Iaith 'Cwis Cymru' o gwmpas y dosbarthiadau. Dosbarth Branwen oedd yn fuddugol – da iawn wir!

**Diwrnod y Llyfr**




Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni ar Fawrth y 7fed. Bu pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau ynghlwm â darllen yn ystod y dydd gan gynnwys cynllunio llyfr nodau ac ysgrifennu adolygiadau o hoff lyfrau. Bu disgyblion dosbarth Pwyll yn darllen hoff storiau i'r plant bach.

**Eisteddfod yr Urdd**

Agorodd yr ysgol ei drysau unwaith eto ar gyfer rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd yn ogystal â'r Eisteddfod Gylch. Bu nifer fawr o'r disgyblion yn cystadlu. Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Llefaru Blwyddyn 2 ac Iau: 2il Elijah Diong Jenner, 3ydd Guto Davies.
Unawd Blwyddyn 2 ac Iau: 1af Elijah Diong Jenner.
Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: 1af Corey Rees
Parti Unsain Blwyddyn 6 ac Iau: Parti Dosbarth Pwyll 1af.
Cyflwyno Alaw Werin Blwyddyn 6 ac Iau: 1af Cadi Jones, 2il Ileana Evans, 3ydd Isabella Diong Jenner.
Côr Blwyddyn 6 ac iau: 1af Côr Griffith Jones.

**Lles**

Bu aelodau o fudiadau'r 'Scouts' a'r 'Guides' yn ein helpu i nodi 'Diwrnod Meddwl y Byd'. Daethant i'r ysgol yn eu gwisgoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y diwrnod yma. Trefnodd y Pwyllgor Ysgolion Iach gystadleuaeth llunio poster i hybu meddylfryd positif.

**Siarter Iaith**



Bu tim dosbarth Pwyll yn cystadlu yn ail rownd 'Cwis Dim Clem Menter Sir Gâr'.
Er na ddaethant yn fuddugol y tro yma rydyn ni'n falch iawn ohonynt. Da iawn i Nia, Mael, Caio ac Amelie.

**Chwaraeon**

Cafodd criw o ddisgyblion dosbarthiadau Pwyll a Myrddin lawer o hwyl yn cymeryd rhan mewn Gŵyl Tag Rygbi a drefnwyd gan Nico Setaro.

**Ymwelwyr**

Daeth cwmni 'Bible Exporer' i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda dosbarthiadau Myrddin a Pwyll.

**CRAFf**

Fel rhan o ddathliadau Gwyl Ddewi fe drefnodd y Gymdeithas Rieni a Ffrindiau noson 'Gawl a Chwis' yn y Clwb Rygbi. Diolch i bawb a gefnogodd y noson a diolch i Aled am holi'r cwestiynau. Llwyddwyd i godi £400 tuag at adnoddau i'r ysgol.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Ymweliad pontio i Ysgol Bro Preseli**

Ar ddechrau'r hanner tymor mwynhaodd criw o ddisgyblion Bl.6 sesiwn pontio yn Ysgol Bro Preseli. Cafwyd diwrnod arbennig yn derbyn ystod o wersi a thaith o amgylch yr ysgol. Edrychai'r disgyblion ymlaen yn fawr at y Cwrs Croeso a'i diwrnod pontio y tymor nesaf.

**Cwis Dim Clem**

Ar ôl i dîm Cwis Dim Clem yr ysgol ennill y rownd gyntaf yn erbyn Ysgol Beca hanner tymor diwethaf cafwyd gwahoddiad i gystadlu yn yr ail rownd yn Yr Atom yng Nghaerfyrddin yn erbyn 4 ysgol arall.
Llongyfarchiadau i Gwenllian Dent, Toby Armstrong, Bella Davies ac Izzie Rozhon am lwyddo i gyrraedd yr ail rownd.

**Gŵyl Rygbi TAG yn Nyffryn Taf**

Ar y 29ain o Chwefror bu disgyblion dosbarth Cynin yn cymryd rhan mewn Gŵyl rygbi tag yn Ysgol Dyffryn Taf. Mwynhaodd y disgyblion ymgymryd mewn sesiwn sgiliau gan chweched ddosbarth Ysgol Dyffryn Taf ac yna cymryd rhan yn yr ŵyl tag yn erbyn ysgolion lleol arall. Gwnaeth y ddau dîm chwarae'n wych gan ennill sawl gêm a sgorio nifer o geisiau o safon uchel. Da iawn chi!

**Eisteddfod Cylch Cwm Taf**

Gyda tymor eisteddfota wedi dechrau, bu disgyblion yn brysur yn cystadlu yn rhagbrofion canu a llefaru'r cylch yn ogystal â'r Eisteddfod Gylch ei hun. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau;
Grŵp Llefaru: 1af
Deuawd: Gwenllian Dent a Bella Davies 1af
Parti Unsain Grŵp Cynin: 2il
Llefaru Unigol Bl.5 a 6: Toby Armstrong yn 2il
Llefaru Unigol Bl.5 a 6 Dysgwyr: Joe Bantock 2il




Grŵp llefaru - 1af yn y Cylch, 2il yn Rhanbarth Gorllewin Myrddin

**Eisteddfod Rhanbarth Gorllewin Myrddin**

Ar y 9fed o Fawrth cynhaliwyd Eisteddfod Rhanbarth Gorllewin Myrddin yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.
Llongyfarchiadau i Luna Wilson am ennill yr ail wobr yn llefaru unigol Bl.3 a 4 i ddysgwyr.
Llongyfarchiadau i'r parti llefaru am ddod yn ail ac hefyd i Gwenllian a Bella am ddod yn drydydd yn y ddeuawd.

**Dydd Gŵyl Dewi**



Bu dathlu mawr ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda phawb wedi gwisgo mewn gwisgoedd Cymreig neu crysau coch Cymru. Cawsom wasanaeth hyfryd yn Eglwys Sant Brynach yn rhannu ac arddangos eitemau'r Eisteddfod i'r rhieni a'r gymuned. Diolch i aelodau'r Eglwys am y croeso cynnes ac i Guto am annerch y disgyblion. Canwyd penblwydd hapus i Merle ar ei phenblwydd yn 90. Penblwydd hapus Merle wrth bawb yn ysgol Bro Brynach. Yn ystod y dydd buodd y disgyblion yn brysur yn coginio a blasu pice ar y maen, yn creu modelau o'r ddraig goch a'r genhinen pedr a chwblhau her ddigidol ynglŷn â Dewi Sant.

**Diwrnod y Llyfr**

Ar Ddydd Iau, 7fed o Fawrth, buom yn dathlu 'Diwrnod y llyfr'. Braf oedd gweld pawb wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Bu pob dosbarth yn gwneud gweithgareddau i hybu sgiliau darllen a chwblhawyd dau ddarn o waith digidol er mwyn dathlu'r diwrnod gan ddisgyblion CA2. Diolch i siop Llawn Cariad am ddod atom â stondin i'r plant cael gwario eu tocyn llyfr.

PHILLIPS A MORRIS
ADEILADWYR
Central, Clunderwen
Symudol:
07775 697803
07920 060956



Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574



Dathlu Diwrnod y Llyfr

**Croesawu**

Hoffwn groesawu Mrs Vicky Russant i'r ysgol fel swyddog gweinyddol. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda Mrs. Russant.

# YSGOL BECA

**Ymweliad i Gaerdydd**




Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn ymweld â Chaerdydd dros nos yn ystod ein hanner tymor cyntaf nôl. Gyda llawer o weithgareddau wedi'u hamserlenni, buodd y plant yn ymweld â'r amgueddfa a'r stadiwm, teithio ar dacsi dwr a chwarae gêm neu ddwy o bowlio 10. Roeddent wedi blino'n lan!

**Dawnsio Gwerin**



Hoffwn longyfarch pob aelod o'n tîm dawnsio gwerin am gasglu'r wobr 1af yn ein Eisteddfod Sir! Rydym ni gyd mor falch ohonoch am geisio eich gorau glas yn ystod eich perfformiad. Rydych wedi gweithio mor galed, â phob tro yn rhoi 100%. Eisteddfod Maldwyn amdani!

**Dydd Gŵyl Dewi**

Roedd yn bleser i groesawu rhieni a'r gymuned agos i'n Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi. Cawsom brynhawn llawn hwyl a sbri gyda pherfformiadau gan bob dosbarth, eitemau'r Eisteddfod ac ein tîm dawnsio gwerin. Diolch o galon am eich cefnogaeth, ymlaen â ni i'r Eisteddfod Gylch!

**Ymweliad wrth Can Llâth**

Hoffwn ymestyn diolch enfawr i Scott o Can Llâth am ymweld â'r Ysgol ar ddydd Mercher y 6ed o Fawrth. Roedd yn siarad am sut i ofalu ar ôl fferm odro a sut ddechreuodd ei fusnes Can Llâth. Roedd yn bleser i dy groesawu nôl i wreiddiau'r teulu yma yn Ysgol Beca, a rhannu ysgytlaeth neu ddau!

**Diwrnod y Llyfr**



Roedd yr Ysgol yn llawn 'oompa loompas', Matilda, Sali Mali a…James Bond! Cawsom ddiwrnod i gofio ar ddydd Iau'r 7fed o Fawrth gyda chystadlaethau gwisg gorau, darllen gyda ffrind a dylunio clawr i lyfr newydd. Roedd pawb yn edrych yn wych! Da iawn i bawb am ymdrechu i ddod â storiâu'n fyw yn Ysgol Beca.

At sylw'r holl ysgolion !!
Beth am i'r plant roi cynnig ar y gystadleuaeth ar dudalen 37 o'r rhifyn yma?

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

Pethau Olyv
Ffasiynau, gemwaith ac ategolion merched
Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion
Brynawelon
Crymych
Ffôn: 01239 831978

YSGOL BECA EFAILWEN

# Ffederasiwn Ysgolion Beca a Bro Brynach

YSGOL BRO BRYNACH

**‘Ni ddylai ddim eich rhwystro’**

Ysgol Beca, Efailwen,
Sir Gaerfyrddin, SA66 7UX
01994 419423
Mark.Bowen@beca.ysgolccc.cymru
www.beca.ysgolccc.cymru
@YsgolB3ca Ysgol Beca

**Pennaeth / Headteacher:**
**Mr. Mark Bowen**

**Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher:**
**Miss Sian Bryan**

**‘Cyrraedd y brig yw ein nod’**

Ysgol Bro Brynach, Llanboidy,
Sir Gaerfyrddin SA34 0EL
01994 448268
Mark.Bowen@brobrynach.ysgolccc.cymru
www.brobrynach.ysgolccc.cymru
@BroBrynach Ysgol Bro Brynach

## Adroddiad disglair i Ysgol Beca ac Ysgol Bro Brynach yn dilyn arolwg diweddar gan Estyn







Derbyniodd Ysgol Beca ac Ysgol Bro Brynach adroddiad canmoladwy gan Estyn yn ddiweddar sy’n amlygu nodweddion cadarnhaol yr ysgolion.

Canmolir yr ysgolion am eu hawyrgylch gofalgar a chyfeillgar, lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn trin ei gilydd ac oedolion â pharch. Mae’r ffocws ar ddiogelwch a diogelu yn cyfrannu at amgylchedd diogel i ddisgyblion.

Mae athrawon Ysgol Beca yn Efailwen yn cynllunio gwersi sy’n gwneud defnydd effeithiol o’r gymuned leol a rôl y pentref yn hanes Cymru. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig profiadau amrywiol a chyffrous, gan gynnwys gweithgareddau fel ‘Gwener Gwyllt’ sy’n gwneud y mwyaf o ardaloedd dysgu awyr agored eang ac amrywiol yr ysgol. Mae gan yr ysgol amgylchedd dymunol a gweithgar, gyda bwrlwm cyson o weithgareddau.

Mae staff Ysgol Bro Brynach yn Llanboidy yn cydweithio’n effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau cyffrous a chyfoethog. Mae safbwyntiau disgyblion wrth galon y broses gynllunio sy’n arwain at ddisgyblion yn ymdrochi’n frwdfrydig yn eu profiadau dysgu.

Mae llwyddiant y ddwy ysgol yn cael ei gredydu i weledigaeth glir a rennir gan staff, rhieni a disgyblion. Canmolir llywodraethwyr am fod yn gefnogol ac yn ddeallus. Mae eu hymrwymiad, ynghyd ag ymrwymiad holl gymuned yr ysgol, yn sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ffynnu yn Ysgol Beca ac Ysgol Bro Brynach.

**H THOMAS a’i FAB**
**Peiriannydd Amaethyddol**

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
**TANYBRYN, GLANDWR**
***Trydanwyr***
***Siop Radio a Theledu***
**CRYMYCH**
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
***Cartref Oddi Cartref***

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

# YSGOL BRYNCONIN

**Dydd Gŵyl Dewi**

Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig neu wedi gwisgo mewn coch ar Ddydd Gwyl Dewi. Cafwyd cyfle i ddysgu am ein nawddsant a chyfle i ddathlu ein Cymreictod. Diolch o waelod calon i Mr Eurfyl Lewis a ddaeth i gynnal twmpath dawns gyda'r plant. Roedd y plant wedi mwynhau y gweithdy dawnsio gwerin yn fawr iawn. Braf oedd cael dathlu ein traddodiadau a chofio am eiriau pwysig Dewi Sant – Gwnewch y Pethau Bychain.







**Eisteddfod Ysgol**

Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Ysgol ar Ddydd Mawrth, 27ain o Chwefror. Braf oedd gweld y plant yn ymdrechu a gwneud eu gorau glas a braf oedd gweld pob un disgybl yn cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau enfawr i'r rhai a ddaeth yn fuddugol yn arbennig i Cynan Makepeace am ennill y gadair, Llŷr Blethyn am ennill y goron, Magi John am ennill tlws Mrs A Huws am yr unigolyn a enillodd y fwyaf o bwyntiau ar y diwrnod ac i Dŷ Bronfaith am ennill y fwyaf o bwyntiau yn yr Eisteddfod. Diolch i Mr Rhidian Evans am feirniadu ac i Mr Peter Lewis am greu y gadair hardd eleni eto.





**Enillydd y Goron:** Llŷr Blethyn

**Enillydd y Gadair:** Cynan Makepeace

**Tlws Mrs A Huws i'r unigolyn â fwyaf o bwyntiau:** Magi John

**Tîm Buddugol:** Bronfraith

DENNIS JONES A'I DEULU
SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU
Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561

JEFF COURT
PEIRIANNYDD MODURON
STATION GARAGE
HEOL YR ORSAF
HENDYGWYN AR DAF
M.O.T.

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

**Diwrnod y Llyfr**
Dathlwyd Diwrnod y Llyfr mewn steil eleni. Ar Ddydd Iau, 7fed o Fawrth roedd Ysgol Brynconin yn llawn lliw o gymeriadau o lyfrau gwahanol. Braf oedd gweld y disgyblion yn eu gwisgoedd a chynlluniwyd nifer o weithgareddau hwyl yn ymwneud â llyfrau.

## Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn cefnogi Sefydliad DPJ

Bu'n bleser cyflwyno siec o £2000 i Sefydliad DPJ, ar ran Cymdeithas yr Hoelion Wyth, yn ystod ein cyfarfod blynyddol yn Nhafarn Ffostrasol yn ddiweddar. Dyma oedd gorchwyl olaf Eurfyl Lewis fel Cadeirydd, cyn iddo drosglwyddo'r awennau i John Jones y Cadeirydd newydd. Codwyd yr arian drwy gynnal raffl fawr a noson o adloniant yng nghwmni Parti'r Camddwr yng Nghaffi'r Emlyn, Tanygroes.




Gwelir Eurfyl yn cyflwyno'r siec i Gerwyn Davies o Abergweun, (un o wirfoddolwyr Sefydliad DPJ) yng nghwmni swyddogion Cymdeithas yr Hoelion Wyth sef Nigel Vaughan (trysorydd), John Jones (Is Gadeirydd), Calfin Griffiths (Llywydd) a Geraint Morgan (Ysgrifennydd).

## ESGYN

Adroddiad gan y Parchedig Sian Elin Thomas
Mae yna bryder mawr yn ein heglwysi o bob enwad, yr ochr Gymraeg a'r ochr Saesneg bod ein pobl ifanc, wrth gyrraedd eu harddegau yn diflannu o'n hysgolion Sul. Yn cefni o'n capeli ac yn bennaf eu ffydd.
Cafodd Y Parchedig Tim Moody, gweinidog cynorthwyol yng Nghapel Moriah, Rhisca, a llywydd cyfredol adran Saesneg UBC, weledigaeth cwpwl o flynyddoedd yn nôl i geisio atal y llif. Fe ddês i glywed am y syniad ym maes awyr Schipol yn Amsterdam wrth i storom Poly roi saib 24 awr ar ein taith i Stavanger yn Norwy mis Gorffennaf diwethaf.

Y syniad oedd prosiect Esgyn, sef i ddechrau penwythnos preswyl i Gristnogion ifanc ein heglwysi i gael hwyl ac hefyd y cyfle i addoli gyda'u gilydd. A bod hyn wedyn yn mynd yn rhywbeth blynyddol a'r gobaith o greu arweinwyr ifanc yn ein heglwysi.

Un o'r pethau mwyaf pwysig i Tim oedd bod ochr Gymraeg ac ochor Saesneg Undeb Bedyddwyr Cymru yn cydweithio. A gyda hynny fe wnaeth e ofyn i fi i fod yn ran o'r prosiect cyffrous newydd yma.

Y pryder wrth gwrs, gydag unrhywbeth newydd yw, a fydde yna ddiddordeb yn ein heglwysi, a gan ein pobl ifanc am y fath ddigwyddiad. Ar ddechrau mis Ionawr doedd dim un person ifanc wedi cofrestru, ond drwy ras Duw cawsom ni, erbyn y penwythnos ar ddechrau mis Chwefror, 33 o enwau, gyda 10 yn dod o Gymanfa Sir Benfro.



Cyfle i addoli dros y penwythnos

Dw i mor falch i adrodd ei fod wedi bod yn benwythnos llawn hwyl a bendith. Dros y penwythnos roedd yna weithgareddau amrywiol yng Nghanolfan Rock UK, fel wal ddringo, saethyddiaeth a rhaffau uchel. Ond gyda phwyslais ar ffydd a Christnogaeth. Mae'r staff sydd yn gweithio yn y Ganolfan yn Gristnogion ac yn siarad gyda'r bobl ifanc am eu ffydd personol wrth iddyn nhw gwblhau'r gweithgareddau. Bob bore a nos hefyd roedd yna gyfle i ddod at ein gilydd i addoli a chwarae ambell i gêm cyn bwrw am y gwely.

Cawsom adborth bositif iawn, â'r un cwestiwn mawr gan bawb…Pryd mae'r penwythnos nesaf?

Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i Bwyllgor Langton am eu haelioni i wneud yn siwr bod y bobl ifanc wedi medru mynychu'r penwythnos am ddim. Edrychwn ymlaen at y digwyddiad nesaf.

**GWASANAETH CEIR HENDYGWYN**

Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

Bwyd y Byd

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

**Gerald Llewellyn a'i Fab**
Peirianwyr Gwresogi a Phlymwyr
Am y dewis gorau o ffyrnau i'r gegin
*Nwy neu Olew*
CELT • AGA • RAYBURN • SORN
Dryslwyn, Clunderwen
Ffôn: 01437 563589


THEATR TORCH THEATRE
CYNHYRCHIAD AR Y CYD GAN THEATR TORCH A THEATR CLWYD
KILL THY NEIGHBOUR
ysgrifennwyd gan Lucie Lovatt
cyfarwyddwyd gan Chelsey Gillard
COMEDI GYFFROUS NEWYDD YN DOD I SIR BENFRO YNG NGWANWYN 2024!
Mercher 24 Ebrill - Sadwrn 4 Mai
DRAMA CYFRWNG SAESNEG
THEATR TORCH THEATRE
torchtheatre.co.uk | 01646 695267
HEOL SAN PEDR | ABERDAUGLEDDAU | SIR BENFRO | SA73 2BU
BSL 2 MAI


ACADEMI AMAETH AGRI ACADEMY 2024
Mae'r cyfnod ymgeisio nawr ar agor.
Cyflwynwch eich cais cyn 15 Ebrill 2024.
ACADEMI AMAETH
ACADEMI YR IFANC
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r cod QR canlynol
FARMING connect
cyswllt FFERMIO



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 1af Ebrill | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Ebrill | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 12fed Ebrill | Gwesty'r Belgrave Sands TORQUAY | £325 | 4 Diwrnod |
| Mawrth 16eg Ebrill | TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ??????????? | £365 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ebrill | PENWYTHNOS YN EFROG | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 22ain Ebrill | Yr EIDAL -Y Dolomites Dramatig a'r Llynnoedd Disglair | £995 | 8 Diwrnod |
| Gwener 26ain Ebrill | BLAS O GYMRU YN Y TYNEDALE, LLANDUDNO | £415 | 4 Diwrnod |
| Llun 29ain Ebrill | DEWCH i DDARGANFOD DINAS LERPWL ar ei gorau | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Mai | DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Mai | NORFOLK - TRENNAU, LLONGAU a SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 11fed Mai | TEITHIO O AMGYLCH YNYS JERSEY | £795 | 7 Diwrnod |
| Iau 16eg Mai | ?????? PENWYTHNOS O DDIRGELWCH I RHYWLE ????? | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 20fed Mai | DEWCH i DDARGANFOD RHYFEDDODAU WEYMOUTH | £430 | 5 Diwrnod |
| Gwener 24ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £395 | 3 Diwrnod |
| Gwener 31ain Mai | (Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd) | £1,995 | 12 Diwrnod |
| Sul 2ail Mehefin | SIR GAER HYFRYD a PHENRHYN y WIRRAL | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 12fed Mehefin | CAINT HANESYDDOL - HISTORIC KENT | £495 | 5 Diwrnod |
| Mercher 12fed Mehefin | LLANDUDNO a TREN BACH YR WYDDFA. | £555 | 5 Diwrnod |
| Sul 16eg Mehefin | CRWYDRO CONNEMARA a'r ARDAL YN IWERDDON | £755 | 7 Diwrnod |
| Sul 23ain Mehefin | EASTBOURNE a Rheilffordd y "BLUEBELL" | £610 | 7 Diwrnod |
| Llun 1af Gorffennaf | ?????? TAITH DDIRGEL GYFRINACHOL yr HAF ??????? | £510 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'I Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Sul 7fed Gorffennaf | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £575 | 6 Diwrnod |
| Gwe 12fed Gorffennaf | Arfordir Gogleddol yr ALBAN a Llwybr y "ROUTE 500" | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Iau 18fed Gorffennaf | GWYLIAU BYR yn y "COTSWOLDS" | £295 | 3 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Teithiau Undydd 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 9fed Ebrill | Gerddi Clun Abertawe a'r Mwmbwls | £18.00 |
| Mercher | 24ain Ebrill | Taith Diwrnod i Aberystwyth | £24.00 |
| Iau | 9fed Mai | Diwrnod Marchnad yn y Gelli Gandryll | £25.00 |
| Mawrth | 14eg Mai | Taith yn cynnwys tê prynhawn yng Ngwesty'r Cliff | £45.00 |
| Mawrth | 28ain Mai | Bathdy Brenhinol, Amgueddfa Glo a Distyllfa Jin Hensol | £65.00 |
| Mawrth | 4ydd Meh | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 18fedMeh | Caerdydd- Taylor Swift (dim yn cynnwys tocynnau) | £25.00 |
| Mawrth | 25ainMeh | McArthur Glen, Penybont ar Ogwr a Porthcawl | £20.00 |
| Sadwrn | 6edGorff | Sioe Awyr Abertawe | £18.00 |
| Mawrth | 23ainMeh | Taith i Dan yr Ogof (Gwyliau Ysgol) | £35.00 |
| Mawrth | 24ainGorff | Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn ! i Ianto Ben Banner Davies, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 3 oed ar 4ydd o Chwefror! Mab Ifan ac Emily, ŵyr Graham a Helen Banner a Ken a Lynys, Clunderwen, a chefnder annwyl!



Penblwydd hapus i Loti Alys sy'n dathlu ei phenblwydd 1af ar 11eg o Fawrth. Merch Dan & Alison Thomas a chwaer fach i Nansi.



Penblwydd Hapus iawn i ti Celt yn 2 flwydd oed ar y 27ain o Fawrth! Joia'r dathlu. Cariad mawr Mam, Dad, Tomos a'r teulu



Pen-blwydd hapus i Efan sy'n 10 oed ar Ebrill 17eg. Ti werth y byd i gyd! Cariad mawr wrth Dad, Mam, Griff, Hen Dadcu Roy, Mamgu Llinos, Geraint, Mamgu a Dadcu Pennant a'r teulu oll. xxx






Penblwydd hapus yn 6 oed i Sara Elena Jones, Blaenau ar y 25ain o Ebrill. Llawer o gariad wrth Dad, Mami, Gwenno, Mamgu a Tadcu Bancyfelin a'r teulu i gyd.






COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

Wenfro
O! Gwyn ein byd – a gwyrdd!

# Cymylau Gwlanog

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Olwen, wyres Mam-gu let-wen, a Glanwen y ddafad, yn dwlu edrych ar y cymylau gwlanog.

**Fedrwch chi ddyfalu pa eiriau yn ymwneud â'r tywydd sydd ym mhob cwmwl?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/04/24**

**Leia Jenkins, Ael y Bryn, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Ionawr Prysur!**

Ateb: Pawen (1af), Owen (7fed), Dilwen (13eg), Glanwen (17eg), Bwgi-Bo (21ain), Rhoswen (25ain), Olwen (29ain). Rhoswen welodd Mam-gu let-wen ar Ddiwrnod Santes Dwynwen.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓟ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

**Jones Login**
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





**Nifer y dyddiau**

**Ebrill 2024**
Llun 15 **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** 5*

**Mai 2024**
Sad 11 **Amgueddfa Sain Ffagan** 1
Llun 13 **Blodau Sir Norfolk** 5*

**Mehefin 2024**
Llun 10 **Gwesty Warner - Holme Lacy** 5*
Mer 19 **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** 3

**Gorffennaf 2024**
Sad 6 Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks 1
A Thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu
Iau 25 **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** 2
Sad 27 *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC* a Bae Caerdydd 1
Maw 30 **Llandudno** 5*

**Awst 2024**
Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 Eisteddfod Genedlaethol 1
Mer 28 **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** 2

**Nifer y dyddiau**

**Medi 2024**
Llun 2 **'All Features Great & Smal** 5*
Sad 7 *Grease, CMC* a Bae Caerdydd 1
Llun 9 **'Picture Perfect Suffolk'** 5*
Sad 14 Canolfan Treftadaeth Gwyr 1
Llun 16 **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** 5*
Llun 23 **Deintyddion Northumbria** 5*

**Hydref 2024**
Sad 5 **ABBA Voyage a Windsor** (Un sedd ar ôl!) 2
Llun 7 **Gwesty Warner - Sinah Warren** 5*
Llun 21 **Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl** 5*
Iau 31 *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* 1

**Tachwedd 2024**
Sad 9 *Sioe Gerrd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd 2
Gwe 22 **Marchnad Nadolig Manceinion** 3
Sad 30 **Gwyl Olau Longeat a Briste** 2

**Rhagfyr 2024**
Sad 7 Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) 1
Sad 14 *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd 1
Llun 23 **Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy** 5*

**Llyfryn 2024 ar gael yn y Gymraeg ar-lein ac mewn print!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

LYNDON GEORGE

**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

CYMDEITHAS AREDIG LLANGOLMAN

**GORNEST AREDIG HEN DRACTORAU**

**ac**

**ARDDANGOSFA HEN DRACTORAU**

ar

**DDYDD SADWRN, MAWRTH 30ain 2024**

yn



**PENRALLT DDU,**
**PONTFAEN**
**SIR BENFRO**
**SA65 9TU**



**Gyda caniatad caredig y Llywydd**
**Mr a Mrs Davies a'r teulu**


**AM FWY O WYBODAETH:**

**Mr. Leighton Bryan, Colman House, Llangolman, Clunderwen, Sir Benfro, SA66 7QL**


Ffôn : 01437 532344

**DYDDIAD CAU**

**Mawrth 25ain 2024**



MYNEDIAD: OEDOLION £5
PLANT: AM DDIM
LLUNIAETH AR WERTH



# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy.

**Tîm 1af**
Dros y mis diwethaf, mae'r tywydd gwael wedi chwarae rôl yn y ffaith mai ond dwy gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae, ac hynny i ffwrdd yn Llanilar cyn croesawu Aberteifi adref.



*Jac Griffiths, capten tîm cyntaf Llanboidy yn mynd heibo ei wrthwynebydd o glwb Aberteifi*

Isod mae canlyniad y gêm gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

17.02.2: Llanilar 2-3 Llanboidy (Gethin Scourfield x 2, Ifan Jones)
09.03.24 – Llanboidy 0 - Aberteifi 1

**2il Dîm**
Un gêm mae'r 2ail dîm wedi chwarae, a hynny oddi cartref yn erbyn Pencader. Edrychwn ymlaen at weddill y tymor, a gobeithio am well tywydd.

Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr:

09.03.24: Pencader 1 - Llanboidy 1 (Will Gardner)

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb - Bydd ymarferion yn cael eu cynnal ar gae 3G Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin bob nos Iau rhwng 20.00-21.00yh.

**Adran Iau**
Mae'r Clwb yn parhau gydag ymarferion adran iau'r Clwb. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno a'r timau derbyn, dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16 sydd gyda ni.

Ymarferion (Cae Dandre – Gamfa'r Clwb):
Derbyn – Nos Fawrth 5.15-5.45yh
Dan 6 a 8 – Nos Fawrth 5.45-6.30yh
Dan 10 – Nos Fawrth 6.30-7.30yh
Dan 12 – Nos Lun 5.30-6.30yh
Ymarferion (Cae 3G Ganolfan Hamdden Crymych):
Dan 14 a 16 – Nos Fawrth 7.30-8.30yh

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr – rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Bydd Noson Rasys gyda ni fel Clwb ar Nos Sadwrn, 20 Ebrill 2024 yng Nghlwb Cymdeithasol a Chwaraeon Llanboidy. Cysylltwch os a diddordeb i noddi. Croeso cynnes i bawb. *Rhodri Lewis*

*Clwb Rygbi Hendygwyn - parhad o dudalen 40*

yn yr ail hanner i frwydro nôl i'r gêm. Cais yr un i Jonny Thomas, Oli Bujega a Deian Davies, tri trosiad gan Geraint Jones.

Mae'r bois yn gweithio yn galed ar y parc ond ma ishe tamaid bach o lwc arnynt i ennill ei gêm cyntaf.

**Menywod**
Daeth tîm y menywod yn gydradd ail yn "Tîm y Flwyddyn" yn Ngwobrau Chwaraeon Sir Gaerfyrddin – llongyfarchiadau mawr iddynt.
Ni chwaraewyd unrhyw gemau yn ystod y mis diwethaf - oherwydd cyfuniad o dywydd gwael a timau ddim yn fodlon teithio.

**Merched dan 18**
Gwnaeth y merched ennill 57-10 yn erbyn Llanbed ar Mawrth 3ydd.

**Merched dan 16**
Maent un gêm i ffwrdd o rownd derfynol 'Road to Principality' fydd yn cael ei gynnal ar Mawrth 23ain – pob lwc i chi ferched.




Y newyddion mwyaf wrth gwrs yw fod Sioned Harries wedi ymddeiol o chwarae rygbi. Bu'n chwarae i Hendygwyn cyn mynd ymlaen i chwarae dros Gymru gan ennill 78 o gapiau. *Suzanne Davies*



# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Cler



Yn dilyn cyfnod llwyddiannus yn ystod mis Ionawr, roedd y bechgyn yn edrych ymlaen tuag at egwyl haeddiannol yn ystod Pencampwriaeth y 6 Gwlad.

Chwefror 17eg: Yr Aman 0 - San Clêr 20. Ein hunig gêm ym mis Chwefror oedd ymweliad a'r Aman ar brynhawn diflas gyda chae trwm ac amodau anodd, gyda'r glaw yn cyfyngu ar gyfleoedd ac fe gymerodd amser i ni gael y sgorfwrdd i symud. Dau gais i Jac Howells a cais yr un i Sam Miles a Tomos Williams. Buddugoliaeth pwynt bonws da o ystyried yr amodau.

Mawrth 2il: - San Cler 20 - Pontyberem 11. Profodd hyn i fod yn gêm heriol gyda Pontyberem yn brwydro yn erbyn disgyn a daethant i chwarae ac amharu ar ein gêm, ac er nad oeddem ar ein gorau, llwyddom i sgorio 4 cais a sicrhau'r pwynt bonws a diogelu ein safle ar frig y gynghrair. Sgoriwyd cais yr un gan Brandon Davies, Sion Evans, Jake Williams a Dafydd Waters.

Mawrth 9fed: San Cler 46 - Casllwchwr 21. Roedd y cyfnod cyn y gêm hon wedi dod ag wythnos o dywydd sych a gwell cyfle paratoi yn ystod y sesiynau ymarfer. Roedd gwaith mawr angen ei gyflawni ar ein cae er mwyn galluogi'r arwynebedd i weddu i'n arddull ni o chwarae. Wedi dweud hynny, roedd ein blaenwyr yn edrych ymlaen i'r gêm hir-ddisgwyliedig hon a gwnaeth eu sgrymio cryf, a'u goruchafiaeth yn y llinellau a'r sgarmesu, ein galluogi i adeiladu mantais sylweddol o ran sgor a chyfyngu Casllwchwr rhag cael llawer o feddiant ac roeddem ar y blaen 23 - 9 ar hanner amser. Fe wnaeth ciciwr gôl Casllwchwr eu cadw yn y gêm ac fe allen ni fod wedi bod ar y blaen gan fwy o bwyntiau, petawn wedi cicio ein ciciau cosb ni.

Gwnaethom ddechrau yr ail hanner yn dda gyda chais, er i Gasllwchwr sgorio dau gais ei hunain yn syth wedi hynny – erbyn hyn roedd gêm gennym ar ein dwylo! Fodd bynnag, fe wnaethon frwydro ymlaen a gorffen y chwarter olaf yn gryf, drwy sgorio 3 chais arall. Mae'n debyg taw dyma ein perfformiad gorau o'r tymor a gyda 3 gêm i'w chwarae, rydym yn gobeithio gorffen y tymor yn gryf. Sgorwyd 3 chais gan Dafydd Waters, 2 gan Liam Rogers a cais yr un gan Dan Evans, Jac Howells ac Alun Davies, Llwyddodd Dan Griffiths gyda 3 trosiad.

Dyma restr y gemau sy'n weddill gennym y tymor hyn :-

Mawrth 23ain - i ffwrdd yn erbyn y Mwmbwls
Ebrill 6ed - adref yn erbyn y Mwmbwls
Ebrill 13eg - adref yn erbyn Llanbed

*Gwyndaf Williams*



Gêm yn erbyn yr Aman

*Lluniau: Chris Rees*



Gêm yn erbyn Casllwchwr

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Mae wedi bod yn gyfnod gymharol dawel o ran gemau, oherwydd Pencampwriaeth y 6 Gwlad.

Chwefror 17eg: Hendy Gwyn 8 - Waunarlwydd 12. Colli o drwch blewyn mewn gêm hynod gystadleuol, chwaraewyd mewn tywydd ofnadwy. Cais gan Zac France Miller a cic gosb gan Geraint Jones.

Mawrth 2il: Cydwely 29 - Hendy Gwyn 21. Os bu gêm o ddau hanner erioed, wel dyma hi. Cydwely wnaeth reoli yr hanner cyntaf drwy sgorio nifer o geisiau, ond gwnaeth bois Hendy Gwyn ddangos dipyn o gymeriad

*parhad ar dudalen 39*